

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynhadledd drwy Zoom	Naomi Stocks
Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Mai 2022	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6565
	SeneddPlant@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

2 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr – sesiwn dystiolaeth 13

(09.00 – 10.15)

(Tudalennau 1 – 45)

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Kirsty Davies-Warner, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tegwch mewn Addysg, Llywodraeth Cymru

Sian Jones, Pennaeth Cefnogi Cyflawniad a Diogelu, Llywodraeth Cymru

Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Zsanett Swain, Uwch-reolwr Polisi Trais yn erbyn Menywod a Cam-drin Domestig, Llywodraeth Cymru

Emily Keoghane, Pennaeth Polisi LHDTTC+, Llywodraeth Cymru

Alessandro Ceccarelli, Pennaeth Polisi LHDTTC+, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(6)–10–22 – Papur 1 – Llywodraeth Cymru



3 Papurau i'w nodi

(10.15)

3.1 Absenoldeb disgyblion

(Tudalennau 46 – 104)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg – CYPE(6)–10–22 – Papur i'w nodi 1

3.2 Blaenraglen waith

(Tudalennau 105 – 156)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Awtistiaeth – CYPE(6)–10–22 – Papur i'w nodi 2

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(10.15)

5 Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith dysgwyr – trafod y dystiolaeth a materion allweddol

(10.30 – 11.30)

(Tudalennau 157 – 167)

Dogfennau atodol:

CYPE(6)–10–22 – Papur Preifat 1

6 Absenoldeb disgyblion – trafod y dull o gynnal yr ymchwiliad

(11.30 – 12.00)

(Tudalennau 168 – 174)

Dogfennau atodol:

CYPE(6)–10–22 – Papur Preifat 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

YMCHWILIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg; Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Ebrill 22

Croesawn y cyfle i ddarparu gwybodaeth i gefnogi ymchwiliad y Pwyllgor i [Aflonyddu Rhywiol Rhwng Cyfoedion Ymhlith Dysgwyr Ifanc](#).

Rydym wedi mynd i'r afael â phob un o feysydd diddordeb y Pwyllgor isod ac edrychwn ymlaen at drafod ymhellach â'r Pwyllgor ar 27 Ebrill.

Maint a natur y broblem mewn lleoliadau addysg a sawl dysgwr yr effeithir arnynt.

Croesawn [adroddiad Estyn](#) sy'n darparu gwybodaeth werthfawr ar yr achosion o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion. Defnyddiwyd gwefan Everyone's Invited gan Estyn i lywio ei hadroddiad, ac ar adeg ysgrifennu'r wybodaeth hon cyflwynwyd mwy na 15,000 o dystiolaethau dienw o bob cwr o'r DU a'u rhannu ar y wefan.

Rydym yn cydnabod bod bwlio ac aflonyddu yn digwydd yn ein hysgolion a'n lleoliadau addysg, ac rydym yn cytuno â chanfyddiadau adroddiad Estyn bod diffyg proses adrodd gadarn. Effaith system adrodd anghyson yw na allwn fod yn siŵr o faint y broblem - nid ydym yn casglu data ar lefel genedlaethol ar hyn o bryd. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn casglu data ar fathau gwahanol o fwlio ac aflonyddu, ond maent yn anghyson iawn a gallant amrywio o ysgol i ysgol.

Canfu adroddiad Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion 2019-2020 ar iechyd a lles myfyrwyr yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021¹:

- Roedd 33% o'r plant a'r bobl ifanc ym mlynnyddoedd 7-11 wedi cael eu bwlio o leiaf unwaith neu ddwywaith yn y deufis diwethaf; a
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o fod wedi cael eu bwlio (35% o gymharu â 30%), ond yn llai tebygol na'r rheini sy'n nodi nad ydynt yn fachgen nac yn ferch, yr oedd mwy na 3 o bob 5 ohonynt wedi cael eu bwlio yn y ddeufis diwethaf.

Amcangyfrifodd Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr²:

- Profodd tua un o bob pum plentyn rhwng 10 a 15 mlwydd oed yng Nghymru a Lloegr (19%) o leiaf un math o ymddygiad bwlio ar-lein yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020;
- Ni wnaeth un o bob pedwar (26%) adrodd am eu profiadau wrth neb; a

¹ Page N., Hewitt G., Young H., Moore G., Murphy S. (2021) Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion 2019/20. Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, y DU [SHRN-NR-FINAL-23_03_21-cy-AMENDED06.08.21.pdf](#)

² [Online bullying in England and Wales: year ending March 2020 - Office for National Statistics \(ons.gov.uk\)](#)

- Profodd tua thri o bob pedwar plentyn (72%) a oedd wedi wynebu ymddygiad bwlio ar-lein o leiaf rywfaent ohono yn yr ysgol neu yn ystod amser ysgol.

Fodd bynnag, mae'r data hyn yn anghyson ynddynt eu hunain – nid ydynt yn cwmpasu mathau gwahanol o leoliadau addysg ac nid ydynt yn rhoi darlun cywir o'r sefyllfa bresennol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gwneud gwaith cwmpasu i ganfod sut y gallwn ddiwallu'r angen am ddata mwy cadarn yn y maes hwn, sy'n cwmpasu mathau gwahanol o fwlio ac aflonyddu yn ein lleoliadau addysg.

Byddwn yn defnyddio canfyddiadau adroddiad Estyn i lywio ein hymateb trawslywodraethol ac yn cydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg hefyd wedi gofyn i Estyn gynnal arolwg arall yn 2022-23, a fydd yn canolbwyntio ar sefydliadau addysg bellach.

I ba raddau y mae'r broblem hon hefyd yn digwydd y tu allan i leoliadau addysg ffurfiol, yn cynnwys ar-lein.

Mae adroddiad Estyn yn nodi'n glir bod angen inni feddwl yn ehangach na'r diwrnod ysgol. Mae trais yn erbyn menywod a merched, yn cynnwys aflonyddu, yn rhy gyffredin o lawer. Mae hon yn broblem gymdeithasol, y mae angen ymateb iddi mewn modd cymdeithasol. Mae'n rhaid inni herio agweddau a newid ymddygiadau'r rhai sy'n ymddwyn yn gamdriniol. Ni ddylai fod angen i fenywod a merched newid eu hymddygiad. Camdrinwyr ddylai fod yn newid eu hymddygiad nhw.

Dyna pam mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i atgyfnerthu Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i gynnwys ffocws ar drais yn erbyn menywod ar y stryd ac yn y gweithle yn ogystal ag yn y cartref er mwyn sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Genedlaethol 2022-2026 rhwng 7 Rhagfyr a 7 Chwefror, gyda dyddiad cyhoeddi arfaethedig ar ddiwedd gwanwyn 2022.

Mae'r Strategaeth yn amlinellu'n glir ein gweledigaeth bod mynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn fusnes i bawb. Nid dim ond cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ydyw. Mae angen i bob un ohonom ddod ynghyd i gydnabod yr ysgogiadau sydd gennym ac i wneud y defnydd gorau ohonynt i sicrhau bod menywod, merched a phawb sy'n wynebu neu sydd mewn risg o wynebu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi ond hefyd i sicrhau bod achosion sylfaenol ymddygiad o'r fath yn cael eu herio a'u dileu.

Dim ond os bydd pawb yn teimlo perchenogaeth dros y Strategaeth ac ymrwymiad a rennir sydd ei angen er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon y gall ein dull gweithredu Cymru gyfan fod yn effeithiol. Mae'r Cabinet wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi'r Strategaeth a byddwn yn mabwysiadu dull trawslywodraethol i sicrhau ei llwyddiant.

Canfu Estyn fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fwy cyffredin ar-lein a'r tu allan i'r ysgol nac yn yr ysgol.

Rydym yn ymrwymedig i gadw dysgwyr yn ddiogel ar-lein ac mae ein dogfen '[Gwella cadernid digidol mewn addysg: Cynllun gweithredu i ddiogelu plant a phobl ifanc ar-lein](#)', yn nodi'r gwaith cydlynol rydym yn ei ddatblygu gyda phartneriaid ledled y DU a rhanddeiliaid allweddol eraill i gyflawni ein nod cyffredin o wella diogelwch a chadernid digidol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Drwy'r parth [Cadw'n ddiogel ar-lein](#) ar Hwb, rydym wedi datblygu adnoddau i gefnogi ymarferwyr i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol ar-lein â dysgwyr mewn modd sy'n briodol i'w hoedran. Ymysg yr adnoddau mae'r pecynnau cymorth addysgu 'Codi llaw, codi llais' a 'Dim ond jôc?', sydd wedi'u cynllunio i gefnogi dull ysgol gyfan o ddeall, atal ac ymateb i aflonyddu rhywiol ar-lein. Mae canllawiau hefyd ar gael i leoliadau addysg er mwyn ymateb i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth, a datblygwyd [modiwl hyfforddi](#) ategol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 i gefnogi ysgolion i ymgorffori'r canllawiau hyn.

Er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i gael profiadau ar-lein cadarnhaol, lansiwyd parth 'Atebion i bryderon ar-lein' newydd ar Hwb. Mae'r cyngor wedi'i lywio gan waith ymchwil a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2021 i brofiadau a phryderon plant a phobl ifanc a rhai o'r rhwystrau i gael help.

Mae'r parth newydd yn cynnwys gwybodaeth a chynghor i blant a phobl ifanc ar 10 pwnc gwahanol sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein, yn cynnwys bwlio ar-lein, rhannu lluniau noeth ac aflonyddu rhywiol ar-lein. Mae'r dudalen cyngor yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad pwysig i blant a phobl ifanc ar beth i'w wneud a ble i gael help os byddant yn poeni am rywbeth sydd wedi digwydd ar-lein. Nod y dudalen aflonyddu rhywiol ar-lein yw helpu dysgwyr i ddeall y mathau gwahanol a geir, yr effaith y gall yr ymddygiad hwn ei chael, sut i fynd i'r afael â hi a chael rhagor o gymorth. Rydym yn parhau i archwilio cyfleoedd i wella hyder ymarferwyr addysg ymhellach yn y maes hanfodol hwn.

Mae lleoliadau gwaith ieuenctid yn rhoi cyfle i bobl ifanc siarad ag oedolion y maent yn ymddiried ynddynt ynghylch materion sy'n effeithio arnynt. Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro yn ymwybodol o adroddiad Estyn ac maent yn awyddus i helpu i fynd i'r afael â materion yn y dyfodol. Mae gweithdrefnau diogelu clir ar waith ar gyfer gwaith ieuenctid. Gall hefyd gynnig cyfleoedd i bobl ifanc gael trafodaethau am faterion mewn amgylchedd diogel, herio ymddygiad annerbyniol a deall eu hawliau o ran mynd i'r afael â nhw.

Nid ydym yn gwybod digon ar hyn o bryd am gyffredinrwydd na natur aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn sefydliadau addysg bellach, a bydd adolygiad thematig arfaethedig Estyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr er mwyn helpu i ddeall maint y broblem.

[Yr effaith ar ddysgu, iechyd meddwl a lles disgyblion.](#)

Gall trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael effaith enfawr ar blant a phobl ifanc. Gall effeithio ar eu lles, eu cyrhaeddiad addysgol, eu cydberthnasau â'u teulu a chyfoedion, a'u gallu i fwynhau cydberthnasau iach, hapus a llawn parch nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod effaith niweidiol aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ar ddysgwyr; effaith yr achos o aflonyddu rhywiol ei hun, ond hefyd y modd y mae'r lleoliad addysg yn ymateb i achosion o'r fath. Ein blaenoriaeth yw sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad i amgylchedd dysgu diogel sy'n hyrwyddo eu lles ac yn eu hamddiffyn rhag niwed.

Mae'n galonogol bod Estyn wedi canfod, yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, bod arweinwyr yn hyrwyddo ethos cryf o barch ym mhob maes o'u gwaith, yn blaenoriaethu lles ac yn mabwysiadu dull ysgol gyfan, rhagweithiol o hyrwyddo a dathlu amrywiaeth; gyda pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau i staff a disgyblion sy'n cysylltu'n glir â nodau ac amcanion sy'n sicrhau bod lles wrth wraidd gwaith yr ysgol.

Mae'r dull ysgol gyfan yn ceisio cefnogi lles emosiynol a meddyliol da drwy hyrwyddo amgylchedd diwylliannol cadarnhaol mewn ysgolion, lle mae plant a phobl ifanc yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â staff a dysgwyr eraill. Mae'r dull ysgol gyfan a chanllawiau'r fframwaith statudol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 yn nodi bod rhai ffactorau risg sy'n golygu bod rhai plant a phobl ifanc yn fwy tebygol o wynebu problemau na phlant eraill. Nid yw'r ffactorau hyn yn bodoli ar eu pen eu hunain, a gall unigolyn brofi sawl un ar y tro; mae ganddynt wahanol lefelau o risg, gallant fod yn ffactorau tymor byr neu hirdymor ac mae rhai yn fwy cyffredin nag eraill. Maent yn cynnwys cael eu bwlio a'u cam-drin (yn cynnwys yn rhywiol) a wynebu trawma. Disgwylir i ysgolion ystyried anghenion unigol ddysgwyr ac rydym yn eu cefnogi i gyflwyno ymyriadau lles cyffredinol ac wedi'u targedu. Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi dros £43m dros y tair blynedd nesaf (2022-23 i 2024-25) i gefnogi'r gwaith o roi'r dull ysgol gyfan ar waith ac i wella lles mewn ysgolion.

Gall effaith aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ddod i'r amlwg ar ffurf problemau presenoldeb ac ymddygiad.

Canfu Estyn, er gwaethaf y ffaith bod ysgolion yn cofnodi achosion o ymddygiad a bwlio ar y cyfan, nad ydynt yn gwneud defnydd cynhyrchiol o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael iddynt i gategoreiddio a dadansoddi achosion o fwlio ac aflonyddu rhwng cyfoedion yn ddigon da nac yn nodi tueddiadau, sy'n atal ysgolion rhag cael darlun cywir o raddau'r gwahanol fathau o fwlio ac aflonyddu, fel aflonyddu rhywiol. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n anodd cysylltu achosion o bresenoldeb neu ymddygiad gwael fel canlyniad aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y cysylltiad tebygol â phresenoldeb ac ymddygiad.

Mae ein Fframwaith Presenoldeb ar gyfer Cymru Gyfan yn nodi'r rôl bwysig y mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn ei chwarae yn rheoli pryderon ynghylch diogelwch.

Rôl pob aelod o dîm y Gwasanaeth Lles Addysg yw:

- Helpu i nodi pryderon lles a dangosyddion bod posibilrwydd bod disgyblion yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ar gam cynnar, gan gyfeirio'r pryderon hynny at yr asiantaeth briodol; (y categorïau cam-drin yw corfforol, emosiynol, rhywiol ac esgeulustod).

- Ar y cyd â'r ALI, sicrhau bod pob aelod o staff ysgolion yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau diogelu ac yn deall eu cyfrifoldebau.
- Ar y cyd â'r ALI, rhoi cyngor a hyfforddiant pan fo angen.
- Ar gais, cynorthwyo asiantaethau diogelu i ymchwilio i achosion o gam-drin ac i amddiffyn disgyblion sy'n "wynebu risg".
- Cynrychioli'r maes addysg mewn cynadleddau achosion, grwpiau craidd ac adolygiadau amddiffyn plant.
- Pan fo'n briodol, gweithredu fel eiriolwr i'r plentyn.
- Bod yn ymwybodol o faterion fel priodas dan orfod, masnachu mewn plant, diogelu plant sy'n ffugio salwch a diogelu plant rhag cael eu cam-drin.

Mae ganddynt hefyd rôl i gydweithio'n agos â'r Heddlu, y Gwasanaethau Diogelu a Chymorth, y Gwasanaeth Prawf, ALLau a'r ysgolion i atal a lleihau achosion o ymddygiad troseddol.

Ceir cydnabyddiaeth gynyddol o effaith hirdymor amlygiad i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod ar ganlyniadau bywyd plant, yn cynnwys ar eu hiechyd a'u lles, cydberthnasau ag eraill, cyrhaeddiad addysgol a ffyniant.

Yn 2016, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i gefnogi'r broses o ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus sy'n ymwybodol o brofiadau niweidiol yn ystod plentynodod. Fel rhan o'r broses o gyflawni'r ymrwymiad hwn, rhoddwyd £300,000, rhwng 2017 a 2020, i'r Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant sydd wedi'i lywio gan ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentynodod a thrawma i ysgolion. Cynigiwyd yr hyfforddiant i bob ysgol ac mae'r cyrsiau a'r deunyddiau cymorth bellach ar gael ar yr Hwb. Yn fwy cyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau tair blynedd arall o gyllid i Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ysgol Plentynodod, sef £500k y flwyddyn rhwng 2022-23 a 2024-25, i barhau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentynodod a mabwysiadu ymarfer sydd wedi'i lywio gan drawma.

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn nodi'r cynlluniau ar gyfer datblygiad parhaus polisi Llywodraeth Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentynodod. Roedd hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu Cynllun Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod. Mae'r gwaith wedi dechrau ar y cynllun, a gaiff ei gyhoeddi'r haf hwn, ynghyd â fframwaith ymarfer newydd sydd wedi'i lywio gan drawma a ddatblygwyd ar y cyd gan Hwb Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod a Straen Trawmatig Cymru. Bydd y fframwaith, sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, yn cefnogi gwasanaethau i ddeall effaith trawma ar unigolion a beth y gallant ei wneud i'w helpu. Gall ysgolion ddefnyddio'r fframwaith i gefnogi dysgwyr a all fod wedi wynebu aflonyddu rhywiol a lleihau ei effaith ar eu dysgu a'u cyrhaeddiad addysgol.

Ar 7 Mehefin 2021, gwnaethom gyhoeddi gwerthusiad terfynol ein cynlluniau peilot mewngymorth CAMHS mewn ysgolion, lle mae ymarferwyr iechyd meddwl arbenigol yn cynnig gwasanaeth ymgynghori, cysylltu, cyngor a hyfforddiant mewn ysgolion. Gwnaethom roi cyllid o £3.9m o'r gyllideb ysgol gyfan ar gyfer 2021-22 sydd ar gael i gefnogi'r broses o gyflwyno'r cynlluniau peilot yn genedlaethol yn unol â

chanfyddiadau ac argymhellion terfynol y gwerthusiad ac rydym yn rhoi £5m arall i gefnogi gweithgarwch yn 2022-23. Mae'r byrddau iechyd wedi dweud wrthym y bydd y cyllid newydd yn sicrhau y gellir recriwtio mwy na 100 o staff cyfwerth ag amser llawn i weithio gydag ysgolion. Un o rolau pwysig y gwasanaeth fydd cefnogi staff ysgolion i nodi materion a sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn trallod yn cael eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol mewn modd amserol.

Yn aml, mae problemau ymddygiad yn mynd law yn llaw ag iechyd meddwl a lles emosiynol gwael ac mae mynd i'r afael â hyn mewn ysgolion wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers cryn amser. Mae cwnsela yn rhan allweddol o sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd â phroblemau emosiynol a phroblemau iechyd meddwl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu buddsoddi mwy na £10m dros y tair blynedd nesaf (2022-23 i 2024-25) i wella'r ddarpariaeth cwnsela ledled Cymru.

Yr effaith ar leoliadau a staff addysg, er enghraifft o ran disgyblaeth a'r graddau y mae aflonyddu ymhlith dysgwyr wedi cael ei 'normaleiddio'.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru 'Dulliau Ymarferol o Reoli Ymddygiad yn yr Ystafell Ddosbarth' yn nodi pan fydd gan athrawon sgiliau ataliol ac ymatebol da, bod y tebygrwydd y bydd anawsterau'n codi neu'n datblygu'n ddigwyddiadau yn llawer is. Dylid cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno sgiliau o'r fath ymhlith athrawon, p'un a ydynt yn athrawon medrus a phrofiadol sy'n gyfrifol am gefnogi eraill, yn athrawon sydd am ehangu eu sgiliau rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth neu'n athrawon newydd gymhwyso (ANGau).

Canfu Estyn, ar y cyfan, nad yw disgyblion yn dweud wrth athrawon pan fyddant yn wynebu aflonyddu rhywiol. Mae hyn am ei fod yn digwydd mor rheolaidd, yn aml, dim ond wrth ffrind y byddant yn dweud, neu byddant yn ei gadw iddyn nhw eu hunain. Maent o'r farn ei fod yn ymddygiad sydd wedi'i normaleiddio ac nad yw athrawon yn ymwybodol o faint y broblem. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn dweud bod athrawon yn aml yn diystyru digwyddiadau fel rhai dibwys neu'n annog disgyblion i'w hanwybyddu. Nododd bron i hanner y disgyblion a ddywedodd eu bod wedi wynebu aflonyddwch rhywiol gan eu cyfoedion eu bod wedi cadw'r aflonyddu rhywiol iddyn nhw eu hunain.

Teimlwyd hyn yn arbennig gan ddisgyblion LHDTG+ sydd wedi cael profiadau personol sylweddol o aflonyddu homoffobig ar lafar, gyda llawer yn dweud bod bwllo homoffobig yn digwydd drwy'r amser ac mai dyna yw'r math mwyaf cyffredin o aflonyddu yn eu hysgol.

Mae adborth diweddar a gafodd Lywodraeth Cymru gan athrawon, uwch-arweinwyr a phobl ifanc eu hunain yn dangos bod gwir ddiffyg hyder ymysg ymarferwyr o ran cael trafodaethau ynghylch homoffobia, aflonyddu rhywiol, rhywedd a hil – trafodaethau sy'n aml yn anodd. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod llawer o ymarferwyr yn poeni am effaith cael y mathau hyn o drafodaethau, ac mae ofn canlyniadau posibl – yn aml caiff hyn ei ddangos mewn enghreifftiau o drafodaethau ynghylch hunaniaeth o ran rhywedd a thrawsffobia, er enghraifft.

Effaith y diffyg hyder hwn yw bod y mathau hyn o drafodaethau'n cael eu hosgoi neu eu diystyru. Mae hyn yn unol â chanfyddiadau adroddiad Estyn, sy'n arwain at ddiffyg hyder ymysg disgyblion i rannu neu adrodd ar eu pryderon a/neu eu profiadau eu hunain.

Felly, mae'n hanfodol bod gwaith Llywodraeth Cymru i gyflwyno dull ysgol gyfan at Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a chanllawiau gwrth-fwlio cadarn wedi'u diweddarau yn cael ei ddatblygu a'i gwblhau ynghyd â'r dysgu proffesiynol a datblygiad parhaus ar gyfer ein staff addysgu a'n hymarferwyr. Cyhoeddir canllawiau gwrth-fwlio diwygiedig ym mis Gorffennaf 2022.

Nid yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn cynnwys pob math o aflonyddu, yn anochel. Mae'n ymwneud â mwy nag 'ymddygiadau' unigolion sy'n galluogi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n ymwneud â normau, agweddau a chredoau cymdeithas y mae'n rhaid eu herio, oherwydd y pethau hyn sy'n cynnal, esgusodi, cyfiawnhau a 'normaleiddio' trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Nod ein Strategaeth ddiwygiedig yw herio agwedd y cyhoedd tuag at drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled poblogaeth Cymru drwy godi ymwybyddiaeth ac ysgogi trafodaeth gyhoeddus gyda'r nod o leihau'r achosion ohono.

Yr effeithiau penodol ar grwpiau penodol o ddysgwyr, er enghraifft disgyblion hŷn, merched a disgyblion LHDTC+.

Gwyddom o adroddiad Estyn fod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn effeithio mewn modd anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr, yn cynnwys disgyblion hŷn, merched a disgyblion LHDTC+.

Mae'n hanfodol bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael eu haddysgu sut i herio pob math o aflonyddu mewn modd diogel, ond mae camau ataliol drwy addysg hefyd yn hanfodol. Mae ein fframwaith newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, a ddaw'n weithredol o fis Medi, wedi'i ddatblygu i gynnwys pob dysgwr ac mae'n cynnwys Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant wrth wraidd y Cod ac mae wedi'i gynllunio i roi sgiliau bywyd i ddysgwyr, yn cynnwys dealltwriaeth o ymddygiadau ar gamau priodol o ran eu datblygiad, yn cynnwys pob math o fwlio, a bwlio ar sail LHDTC+, trais rhywiol a thrais ar sail rhywedd mewn amrywiaeth o gyd-destunau, yn cynnwys ar-lein.

Rydym wedi comisiynu hyfforddiant i arweinwyr ysgolion er mwyn ymgorffori ein canllawiau gwrth-fwlio a rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â phob math o fwlio mewn ysgolion, yn cynnwys bwlio homoffobig. Rydym yn gwneud dysgu proffesiynol yn flaenoriaeth allweddol dros y misoedd nesaf i gefnogi ysgolion a lleoliadau cyn rhoi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar waith, ac rydym wrthi'n cydweithio ag ymarferwyr a phartneriaid i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Wedi ein llywio gan gyngor gan Estyn, byddwn yn cydweithio'n agos â'r sector addysg bellach i sicrhau bod dysgu proffesiynol, canllawiau a chymorth priodol ar waith i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a bwlio.

Byddwn hefyd yn ystyried sut y gall hyfforddiant yn y dyfodol i ysgolion ac arweinwyr ysgolion fynd ymhellach er mwyn ymgorffori'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r afael â mathau penodol o fwlio, fel bwlio homoffobig a thrawsffobig, ac aflonyddu rhywiol.

O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (rhwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer pob ysgol, coleg ac awdurdod lleol), mae rhwymedigaeth ar ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd i sicrhau y caiff camau gweithredu priodol ac effeithiol eu cymryd i ddileu neu leihau anfanteision sy'n wynebu dysgwyr o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig, fel rhyw, rhywioldeb a rhywedd.

Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi'i llywio gan y dystiolaeth fyd-eang a chenedlaethol bod pob math o gamdriniaeth yn effeithio mewn modd anghymesur ar fenywod a merched. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw effaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn unfurf. Mae'n effeithio ar bobl wahanol mewn ffyrdd gwahanol ac felly bydd deall effaith hyn ar gydraddoldeb ar sail drawstoriadol yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r broblem i bawb yng Nghymru.

Gall gwahaniaethau diwylliannol effeithio ar faterion fel cam-drin a thrais ar sail 'anrhydedd'. Gall rhywioldeb a hunaniaeth rhywedd lywio profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac mae data'n dangos bod pobl anabl yn wynebu cyfraddau uwch o lawer o gam-drin domestig.

Felly, mae'n hanfodol bod ein Strategaeth yn cysylltu â gwaith ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru drafft, y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft a'r Cynllun Gweithredu Hawliau Anabledd, wrth iddi gael ei ddatblygu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn deall ac yn adlewyrchu materion cydraddoldeb, a bod ein hymateb yn cael ei deilwra'n briodol.

Effeithiolrwydd polisiâu a chanllawiau presennol, a nodi atebion a gwelliannau posibl.

Mae gan bob lleoliad addysg yng Nghymru ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau bod amgylchedd dysgu diogel ar gael i blant; rydym yn disgwyl i'r cyfrifoldebau diogelu hyn gael eu cymryd o ddifrif.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#) er mwyn helpu ysgolion i greu a chynnal amgylchedd dysgu diogel i blant. Rhaid i'r canllawiau hyn gael eu darllen a'u dilyn gan awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (yn cynnwys ysgolion meithrin a gynhelir), ysgolion sylfaen ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, a sefydliadau addysg bellach, o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002.

Mae'r bennod yn Cadw Dysgwyr yn Ddiogel ar *Gyfrifoldebau diogelu mewn amgylchiadau penodol* yn cynnwys adran ar achosion o gam-drin ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar yr ymateb priodol gan staff lleoliadau addysg sydd â phryderon ynglŷn â diogelu.

Gwnaethom adolygu'r canllawiau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i ddeddfwriaeth ac yn atgyfnerthu trefniadau diogelu. Gwnaethom gynnal ymgynghoriad ar y fersiwn ddiwygiedig o Cadw Dysgwyr yn Ddiogel rhwng 18 Gorffennaf a 7 Tachwedd 2019. Diben yr ymgynghoriad oedd nodi a yw'r canllawiau drafft diwygiedig yn diwallu anghenion cynulleidfaoedd allweddol. Croesawyd y fersiwn ymgynghoriad ddiwygiedig o'r canllawiau ond cynigiodd yr ymatebwyr awgrymiadau ynghylch sut y gellid eu gwella, a ddefnyddiwyd gennym i lywio diwygiadau a wnaed i'r fersiwn derfynol o'r canllawiau a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu adnodd archwilio trefniadau diogelu er mwyn helpu ysgolion (a phob lleoliad addysg arall) i sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i gyflawni eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Mae'r adnodd archwilio wedi'i gynnwys yng nghanllawiau diwygiedig Cadw Dysgwyr yn Ddiogel fel mater o ymarfer effeithiol i bob lleoliad addysg.

Mae'r Hwb yn cynnal cyfres o fodiwlau e-ddysgu, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r [Modiwlau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#) yn helpu pob aelod o staff mewn lleoliadau addysg i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu fel y'u nodir yng nghanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel. Mae pum modiwl ar wahân ar gael ar Hwb. Gall yr unigolyn diogelu dynodedig neu bennaeth glustnodi'r modiwlau i aelodau eraill o staff er mwyn eu helpu i fonitro cynnydd a chyrhaeddiad y staff. Mae'r [Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#) yn rhoi cyngor i unigolion diogelu dynodedig a phenaethiaid ar sut i ddefnyddio a chlustnodi'r modiwlau hyn. Mae'r modiwlau wedi'u diweddarau yn unol â chanllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel.

Maent ar gael i'r sector annibynnol sy'n eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau diogelu yn effeithiol a bydd y dysgu sydd ar gael yr un fath â'r hyn a geir mewn ysgolion a gynhelir.

Drwy'r parth [Cadw'n ddiogel ar-lein](#) ar Hwb, rydym wedi datblygu adnoddau i gefnogi ymarferwyr i addysgu a chefnogi dysgwyr â'r broblem gyffredin o rannu delweddau noeth. Gan gydnabod y gall fod yn gymhleth ymateb i ddigwyddiadau sy'n cynnwys cyfoedion, gan y gall sawl cymhelliad neu reswm gwahanol fod yn sail i'r ymddygiad, gwnaethom gyhoeddi [canllawiau](#) i leoliadau addysg i'w cefnogi i ymateb yn effeithiol i achosion o rannu delweddau noeth a hanner noeth ym mis Rhagfyr 2020. Datblygwyd [modiwl hyfforddi](#) ategol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021 i gefnogi ysgolion i ymgorffori'r canllawiau hyn. Gall y modiwl hwn helpu wrth ddatblygu gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael â digwyddiadau i sicrhau ymateb priodol a chymesur.

Mae [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#) ar gyfer plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod. Maent yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol i ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gamdriniaeth ac esgeulustod.

Nod y gweithdrefnau hyn yw llywio ymarfer diogelu i bawb sy'n cael eu cyflogi yn y sector statudol, y trydydd sector (gwirfoddol) a'r sector preifat mewn gwasanaethau ieched, gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu, cyfiawnder a gwasanaethau eraill.

Maent yn hyrwyddo ymarfer diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn asiantaethau a ledled Cymru.

Mae hyn yn cynnwys *Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan – diogelu plant lle mae pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol*. Mae'r canllaw'n cynnwys cyngor ar ymateb i gamdriniaeth rhwng cyfoedion mewn modd sy'n diogelu plant a phobl ifanc ac, yn unol â'r egwyddor 'plant yn gyntaf', mae'n cynnig cefnogaeth ac ymyriad priodol i blant sydd ag ymddygiad rhywiol niweidiol er mwyn atal niwed.

Cyhoeddwyd y [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol](#) ar atal ac ymateb i achosion o gam-drin plant yn rhywiol ym mis Gorffennaf 2019 ac mae'n cynnwys camau gweithredu ar atal ac ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu sesiwn dysgu ar-lein mynediad agored amlasiantaethol, cyngor i ymarferwyr mewn asiantaethau a chynghor i rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc lle ceir pryderon ynghylch ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys camau gweithredu i Fyrddau Diogelu rhanbarthol adolygu trefniadau ar gyfer llwybrau ymyriad yn gynnar i blant lle ceir pryderon ynghylch ymddygiad rhywiolledig amhriodol neu ymddygiad rhywiol niweidiol.

Rydym eisoes wedi sefydlu sawl llinell gymorth a ariennir gan Lywodraeth Cymru, yn benodol Childline Cymru, Byw Heb Ofn a gwasanaeth MEIC. Hefyd, mae canllawiau helaeth ar gael ar atal ac ymateb i achosion o aflonyddu rhywiol a cham-drin plant, yn cynnwys ein canllawiau statudol [Cadw Dysgwyr yn Ddiogel](#).

Rydym wedi derbyn argymhelliad Estyn i *sicrhau bod ysgolion yn cael diweddariadau rheolaidd a llawn gwybodaeth ar arferion gorau ac adnoddau addas sydd ar gael i'w cynorthwyo i gyflwyno addysg cydberthynas a rhywioldeb*.

Mae hwn yn faes blaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac mae cynllun cenedlaethol o ddysgu proffesiynol ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wrthi'n cael ei ddatblygu gydag ymarferwyr a phartneriaid. Mae swyddogion wrthi'n trafod â rhanddeiliaid allweddol a rhanddeiliaid ehangach Llywodraeth Cymru i nodi bylchau, ac i gomisiynu adnoddau newydd o ansawdd uchel pan fo angen er mwyn cefnogi'r broses o'u rhoi ar waith. Bydd sgysiau Rhwydwaith Cenedlaethol hefyd yn cynnig cyfle i drafod adnoddau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, yr ystyrir eu bod o ansawdd uchel ac i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau lle gall fod angen comisiynu adnoddau newydd.

Ymrwymodd y Strategaeth Genedlaethol flaenorol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i gynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol. Mae'r amcan hwn wedi'i drosglwyddo i fersiwn nesaf y Strategaeth. Rhaid inni roi'r cyfle i bobl ifanc dyfu heb syniadau niweidiol a chyfyngol ynghylch rolau, pŵer a rheolaeth o ran rhywedd a rhoi'r sgiliau iddynt dynnu sylw at ymddygiad annerbyniol.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu prosiect Sbectrwm Hafan Cymru, sy'n hyrwyddo pwysigrwydd cydberthnasau iach ac sy'n codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Sbectrwm hefyd yn cynnig hyfforddiant i staff a llywodraethwyr ysgolion ynghylch deall effaith cam-drin

domestig ar blentyn ac yn hyrwyddo dull ysgol gyfan o fynd i'r afael â cham-drin domestig.

Addysg Uwch

Y tymor hwn, bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cyhoeddi cylchlythyr ar ddiogelu er mwyn sicrhau addysg uwch diogel a chynhwysol. Bydd y cylchlythyr hwn yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau roi rhagor o sicrwydd i CCAUC ar bolisiau a phrosesau i sicrhau diogelwch myfyrwyr mewn perthynas â thrais, camdriniaeth ac aflonyddwch.

Mae CCAUC yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion o'r tîm trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i sicrhau bod eu gwaith yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Cyflwynodd CCAUC [ymateb i'r ymgynghoriad](#) ar y Strategaeth Genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ym mis Chwefror 2022.

Mae CCAUC wedi cael trafodaethau â swyddogion AB i sicrhau bod eu hadolygiad o fesurau diogelu mewn AU (sydd wedi'i drefnu ar gyfer 2022/23) yn cyd-fynd ag adolygiad Llywodraeth Cymru o aflonyddwch rhwng cyfoedion mewn colegau AB. Bydd yr adolygiad o AB, a arweinir gan Estyn, yn adolygiad sy'n cyd-fynd â'r adolygiad o ysgolion sydd wedi'i gwblhau, felly, bydd CCAUC yn cynnal cyfres o adolygiadau ar draws y system i lywio ei ddealltwriaeth o'r camau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod mewn addysg a diwylliannau lle ceir casineb at fenywod lle maent yn bodoli.

Cynhaliodd CCAUC ddigwyddiad AU ar 17 Chwefror i drafod: trais yn erbyn menywod; goblygiadau Strategaeth arfaethedig Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar AU; sbeicio; cydweithio ag asiantaethau yn y trydydd sector i gefnogi menywod a mynd i'r afael ag achosion o drais ac aflonyddu; materion sy'n codi o gyd-destun COVID-19 a mabwysiadu hyfforddiant Gwylwyr. Roedd cynrychiolwyr o bob prifysgol yng Nghymru a nifer o golegau addysg bellach a phartneriaid o'r trydydd sector yn y digwyddiad. Ymysg y siaradwyr roedd tîm Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cymorth i Ferched Cymru. Mae CCAUC wedi trefnu i gwrdd â Phrif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru, Sara Kirkpatrick, i drafod sut y gallant weithio'n agosach mewn partneriaeth â phrifysgolion, er mwyn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cyhoeddwyd y canllawiau ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch mewn partneriaeth â CCAUC ym mis Mawrth 2020 fel y cynlluniwyd, a chawsant eu hadolygu ym mis Tachwedd 2020 i gynnwys effaith pandemig COVID-19.

Mae CCAUC wedi ymrwymo £2m bob blwyddyn i brifysgolion i gefnogi'r gwaith o roi strategaethau lles ac iechyd ar waith ac mae CCAUC yn disgwyl i'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu hyn fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar les ac iechyd ar bob ffurf.

Effeithiolrwydd rolau amrywiaeth eang o gyrff statudol mewn perthynas â'r mater hwn, yn cynnwys yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, adrannau addysg awdurdodau lleol, unedau atgyfeirio disgyblion ac ysgolion eu hunain, ac i ba raddau y mae dull amlasiantaethol yn cael ei ddefnyddio lle y bo'n briodol.

Gan gydnabod bod dull amlasiantaethol yn allweddol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, rydym wedi bod yn ymgysylltu â Phlisma yng Nghymru o'r cychwyn cyntaf. Mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Heddluoedd yn ymrwymedig i gydweithio â Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg.

Cyfarfu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Gweinidog y Gymraeg ac Addysg â chynrychiolwyr o Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau a Heddluoedd i fynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiad Estyn.

Mae'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn cwrdd yn rheolaidd â chadeirydd presennol Grŵp Plisma Cymru Gyfan, Comisiynwr yr Heddlu a Throseddau Dafydd Llywelyn, i drafod amrywiaeth o faterion, yn cynnwys aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a chasineb at fenywod yn ehangach.

Roedd yn dda gweld y cyfeiriadau cadarnhaol yn adroddiad Estyn at waith Rhaglen Ysgolion Heddluoedd Cymru. Mae'r rhaglen wedi'i chefnogi gan Lywodraeth Cymru ers 2004 ac rydym yn buddsoddi £1.98m ynddi bob blwyddyn. Ceir arian cyfatebol gan bedwar Heddlu Cymru.

Dros y blynyddoedd, mae'r Rhaglen wedi esblygu drwy ehangu i gwmpasu materion cymunedol ehangach a materion diogelwch personol ar holl gamau allweddol y cwricwlwm. Mae'r rhaglen graidd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, bwllo, diogelwch ar-lein, secstio, camfanteisio'n rhywiol ar blant a chydysyniad, gan ddarparu rhaglen gytbwys mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae'r swyddogion yn cydweithio'n agos â'r Heddlu ar roi'r argymhellion ar waith o adolygiad o'r rhaglen a gynhaliwyd yn 2019.

Gwyddom fod y rhaglen wedi cynnal 8,180 o wersi Atal Troseddau a bod 70% o ysgolion Cymru wedi'u cyrraedd hyd yma ym mlwyddyn academiaidd 21/22. Hefyd, cafwyd 289,029 o gysylltiadau â disgyblion hyd yma yn y flwyddyn ysgol hon (yn cynnwys Gwasanaethau). Cynhaliwyd 4,544 o Weithgareddau Plisma Ysgolion Cefnogol yn cynnwys delio â 2,636 o ddigwyddiadau mewn ysgolion gan ddefnyddio Protocol Crime Beat mewn Ysgolion.

Fel rhan o waith Ysgolion Bro, ar 22 Mawrth, gwnaethom gyhoeddi cyllid o £3.84m i gefnogi Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd mewn ysgolion. Bydd y rolau hyn yn canolbwyntio ar gydweithio â phlant a phobl ifanc sy'n wynebu anawsterau a'u teuluoedd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion. Bydd y rolau hyn yn cyfrannu at ein gwaith o fynd i'r afael â materion fel aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion drwy nodi'r broblem yn gynnar a chydweithio ag eraill i roi cymorth.

Effeithiolrwydd ymateb ar y cyd Llywodraeth Cymru ar draws ei holl adrannau perthnasol gan ganolbwyntio ar addysg, gwasanaethau cymdeithasol a diogelwch cymunedol a chynnwys gwasanaethau annatganoledig fel yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol.

Mae'n flaenoriaeth drawslywodraethol o hyd i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael cefnogaeth ac yn gallu nodi unrhyw bryderon sydd ganddynt. Gan gydnabod bod heriau diwylliannol ehangach o ran mynd i'r afael â'r mater hwn, rydym yn parhau i gydweithio'n drawslywodraethol mewn perthynas â'n hymateb parhaus.

Byddwn yn defnyddio canfyddiadau adroddiad Estyn i lywio ein hymateb trawslywodraethol ac yn cydweithio â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn, yn cynnwys datblygu cynllun gweithredu amlasiantaethol. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i anelu at blant a phobl ifanc, a phawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn lleoliad addysg a fyddai'n cael budd o ddeall y camau gweithredu a gymerir gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg.

Bydd y cynllun gweithredu yn nodi'r camau gweithredu presennol a'r camau gweithredu arfaethedig ar gyfer y dyfodol i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg yn erbyn themâu allweddol a nodwyd. Yn bwysig, bydd y cynllun gweithredu hwn yn cysylltu â chynlluniau eraill: y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant; y Cynllun Gweithredu Cadernid Digidol mewn Addysg a Strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn gwella dealltwriaeth o'r gwaith a'r cymorth sydd ar gael i rymuso plant a phobl ifanc.

Yn dilyn ei ddatganiad ysgrifenedig ar 16 Mehefin, ysgrifennodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at yr holl ysgolion a restrir yn adroddiad Everyone's Invited i geisio sicrwydd o'u mesurau diogelwch ac i gynnig cymorth a chynghor. Anfonwyd llythyr i bob ysgol gan Gyfarwyddwr y Gymraeg ac Addysg.

Mae gweithio ar y cyd yn hanfodol os ydym am gyflawni ein nod o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw. Rydym wedi cydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid allweddol yn cynnwys timau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, yr heddlu, y sector arbenigol a goroeswyr i ddatblygu ein Strategaeth bum mlynedd nesaf ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae cydweithio a chydgyhyrchu wedi bod yn hanfodol er mwyn datblygu'r Strategaeth ddrafft a bydd hyn hefyd yn hanfodol er mwyn ei rhoi ar waith.

Caiff y Strategaeth ei rhoi ar waith drwy ddull glasbrint, sy'n dwyn ynghyd sefydliadau datganoledig ac annatganoledig, a bydd yn atgyfnerthu'r bartneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector arbenigol.

Bydd Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol newydd yn goruchwyllo'r gwaith o roi'r Strategaeth ar waith – bwrdd a arweinir gan Weinidogion dan gadeiryddiaeth Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau arweiniol Cymru.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o roi Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, y canllawiau statudol cysylltiedig a Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar waith. Caiff cyfrifoldebau diogelu eu rhannu rhwng asiantaethau datganoledig ac annatganoledig. Mae'r holl waith a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn cynnwys gwaith trawslywodraethol ac mae wedi'i lywio drwy ymgysylltu â chyrff a sefydliadau allanol ar sail amlasiantaethol. Mae Grŵp trawslywodraethol wedi'i sefydlu ar ddiogelu, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod i sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu ac i wella ymwybyddiaeth o waith trawsbynciol i gefnogi dull ar y cyd.

Prosesau ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol i gasglu a defnyddio data ar fwlio ac aflonyddu, fel sy'n berthnasol i'r mater hwn.

Mae'n amlwg o adroddiad Estyn bod angen clir am adroddiadau mwy cadarn ar achosion o aflonyddu rhywiol mewn lleoliadau addysg, ac nad oes gan blant a phobl ifanc yr hyder i roi gwybod i'w hathrawon am achosion. Gall hyn, yn ei dro, arwain at ddiffyg gwybodaeth am wir faint y broblem mewn ysgolion, yn ogystal â diffyg cysondeb mewn systemau adrodd ac wrth gasglu data. Caiff hyn ei adlewyrchu ar draws mathau amrywiol o aflonyddu a bwlio, yn cynnwys aflonyddu hiliol a bwlio homoffobig.

Rydym wedi derbyn argymhelliad Estyn i *weithio gydag awdurdodau addysg lleol er mwyn gwella'r ffordd y maent yn casglu gwybodaeth am fwlio ac aflonyddu gan ysgolion a sicrhau bod awdurdodau lleol yn adnabod ac yn ymateb i batrymau a thueddiadau mewn ymddygiad*. Mae hyn er mwyn cynllunio canllawiau, hyfforddiant a chymorth addas i ysgolion. Gwyddom hefyd fod dull colegau o gasglu ac adrodd ar y wybodaeth hon yn amrywio, felly mae angen ehangu gwaith ar wella systemau adrodd ar draws lleoliadau addysg.

Rydym eisoes yn ystyried y newidiadau sydd eu hangen i'n canllawiau gwrth-fwlio, [Hawliau, Parch, Cydraddoldeb](#) mewn perthynas ag aflonyddu a bwlio hiliol mewn ysgolion, yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol – Cymru Wrth-hiliol. Byddwn yn ystyried sut y gellir ehangu'r gwaith hwn yn effeithiol i gynnwys arferion adrodd cadarn, cofnodi a chasglu data ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, aflonyddu a bwlio homoffobig.

Bydd arferion adrodd cadarn a chyson yn:

- gwella hyder plant a phobl ifanc bod eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif;
- ymgorffori'r diwylliant yn ein lleoliadau addysg bod aflonyddu neu fwlio o unrhyw fath yn gwbl annerbyniol;
- arwain at gynnydd mewn arferion casglu data tymor hwy a thueddiadau a fydd yn helpu i lywio ein prosesau llunio polisïau ac i greu newid.

Rôl teuluoedd, rhieni a gofawyr, fel sy'n berthnasol i'r mater hwn.

Mae mynd i'r afael ag agweddau negyddol at rolau o ran rhywedd a chydberthnasau yn fusnes i bawb ac mae dull cymdeithas gyfan yn rhan sylfaenol o'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae achosion o aflonyddu, cam-drin a thrais yn digwydd yn ddyddiol i fenywod ac maent wedi effeithio ar eu bywydau am lawer rhy hir.

Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau arbenigol i godi ymwybyddiaeth o'r anghydraddoldeb a'r problemau diogelwch a wynebir gan fenywod a merched, ac i roi diwedd ar bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a byddwn yn parhau i gydweithio â Heddluoedd Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, byrddau diogelwch cyhoeddus a Gwasanaeth Erlyn y Goron i roi hyder i ddioddefwyr roi gwybod am achosion o gam-drin a thrais pan fyddant yn digwydd ac i ddwyn y sawl sy'n cam-drin i gyfrif.

Byddwn yn torri'r cylch ac yn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy fynd i'r afael â thrais gan ddynion, a'r casineb at fenywod a'r anghydraddoldeb rhywiol sy'n sail iddo

Dynion yw'r mwyafrif helaeth o'r rhai sy'n cyflawni trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond nid bob amser. Felly, mae'n bwysig cydnabod nad menywod yw'r dioddefwyr bob amser a'i fod yn gallu effeithio ar ddynion a phobl â hunaniaeth anneuaidd hefyd. Caiff pob cyflawnwr, ni waeth beth fo'i rywedd, ei ddwyn i gyfrif am ei weithredoedd. Fodd bynnag, mae trais gan ddynion yn diffinio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a bod mynd i'r afael â'r dynameg pŵer a rheolaeth a grëir gan anghydraddoldeb rhywiol yn gywir yn allweddol.

Rhaid i hyn ddechrau gyda bechgyn a dynion ifanc er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gael cyfle i dorri'r cylch hwn a datblygu cydberthnasau iach yn seiliedig ar barch a chydysyniad.

Fel rhan o'n gwaith i ddatblygu Ysgolion Bro, byddwn yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â rhieni/gofawyr. Mae Ysgolion Bro yn gallu nodi problemau'n well ar gam cynnar a chydweithio ag eraill i roi cymorth.

Rôl y Cwricwlwm newydd i Gymru o ran datblygu agweddau iachach tuag at faterion cydberthynas a rhywioldeb.

Bydd y cwricwlwm newydd o fis Medi 2022 yn cynnwys Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles a fydd yn gwella ffocws y cwricwlwm newydd ar iechyd a lles dysgwyr. Mae hyn yn rhan arloesol o'r cwricwlwm newydd a'i nod yw sicrhau bod pob person ifanc yng Nghymru yn cael addysg a chymorth mewn perthynas â materion fel lles corfforol, emosiynol a meddyliol.

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn ofyniad statudol yn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr. Mae gan ysgolion a lleoliadau rôl ganolog i'w chwarae yn creu amgylcheddau diogel a grymusol wrth ategu hawliau

dysgwyr i fwynhau cydberthnasau iach a diogel sy'n gwireddu eu dyheadau drwy gydol eu hoes.

Caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei rhoi ar waith mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022.

O fewn canllawiau statudol newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'n amlwg y dylai'r dull gweithredu mewn perthynas ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb fod yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol, gan ystyried sut y gallai fod angen i ddysgwyr gael eu cefnogi i wybod sut i gydnabod pob math o wahaniaethu, trais, camdriniaeth ac esgeulustod, yn cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac mae dolen wedi'i chynnwys sy'n arwain at becyn cymorth o adnoddau i gefnogi ysgolion a lleoliadau ar y mater pwysig hwn.

Mae codi ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o gydraddoldeb, parch a chydsyniad yn hanfodol os ydym am roi diwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym am sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc fanteisio ar addysg o ansawdd uchel sy'n briodol ar gyfer eu cam datblygu, ac sy'n ymateb i'w hanghenion a'u profiadau. Bydd y Strategaeth Genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhedeg ochr yn ochr â chod a chanllawiau newydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan ehangu ein nod o sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc fwynhau cydberthnasau iach, hapus a llawn parch nawr ac yn y dyfodol.

Mae'n hanfodol ein bod yn diogelu ein holl bobl ifanc a'u cefnogi i fynd i'r afael â maes cymhleth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Wrth gwrs, mae gan rieni rôl ganolog i'w chwarae yn hyn, ond mae rôl hanfodol i ysgolion hefyd, sy'n bwysicach nag erioed ar hyn o bryd.

Sefydlwyd Rhwydwaith Cenedlaethol i ddwyn ynghyd addysgwyr proffesiynol, arbenigwyr, rhanddeiliaid, gwneuthurwyr polisi ac i alluogi partneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r rhwystrau i'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, a'r cyfleoedd i wneud hynny. Bydd y sgysiau'n rhoi cyfle allweddol i drafod dull gweithredu cenedlaethol mewn perthynas ag adnoddau, deunyddiau ategol ac anghenion dysgu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw gymorth ac adnoddau ychwanegol i helpu dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Eitem 3.1

CYPE(6)-10-22 - Papur i'w nodi 1

Jeremy Miles AS/MS

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language**



Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/1466/22

**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Jayne Bryant AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru

25 Ebrill 2022

Annwyl Jayne,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Ebrill ynghylch eich ymchwiliad arfaethedig i absenoldeb disgyblion. Fel y noda eich llythyr, rydym eisoes wedi gwneud rhywfaint o waith yn y maes hwn. Daeth yr adolygiad cynhwysfawr o batrymau presenoldeb i ben ym mis Chwefror ar ôl trafod ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion. Y nod oedd deall mwy am y rhesymau dros absenoldebau a cheisio barn ar ffyrdd o ailymgysylltu a chefnogi dysgwyr.

Mae'r gwaith wedi arwain at adroddiad sy'n cynnwys argymhellion eang yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid, a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu ymyriadau polisi yn y dyfodol yn y maes hwn. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dull strategol o addysgu a dysgu digidol i fynd i'r afael ag anghenion y rhai nad ydynt yn bresennol mewn ysgolion neu na allant fod yn bresennol mewn ysgolion; a datblygu modelau ysgolion bro, gyda ffocws cryf ar ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r adroddiad ynghlwm (Dogfen 1).

Mae fy swyddogion wedi cael nifer o drafodaethau gydag awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion ynghylch presenoldeb yn yr ysgol, ac yn cynnal deialog reolaidd ag awdurdodau lleol. Ym mis Rhagfyr cyhoeddais £7m o gyllid ychwanegol i ddarparu gwell cymorth ar bresenoldeb, gan dargedu'r dysgwyr hynny sydd â lefelau uchel o ddifffyg presenoldeb ac yn enwedig y dysgwyr Blwyddyn 11 hynny nad ydynt yn mynychu'r ysgol, ac nad ydynt yn debygol o gwblhau TGAU.

Bydd ein gwaith yn y maes hwn hefyd yn cyd-fynd ag ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i leihau anghydraddoldebau addysgol a gwella cyrhaeddiad i bawb.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 46
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn gwneud datganiad llafar ar 3 Mai i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dull o weithredu'r argymhellion a amlygwyd yn yr adroddiad.

Gobeithio y bydd y diweddariad hwn o gymorth i'r Pwyllgor ac yn cynorthwyo gyda'ch ymchwiliad yn ystod tymor yr haf.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, consisting of a large 'J' followed by a series of loops and a horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language

Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion

Meilyr Rowlands – Chwefror 2022



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.



ISBN Digidol XXX X XXXX XXXX X
© Hawlfraint y Goron Mai 2022
WGXXXX

Cynnwys

Ynglŷn â'r awdur	2
Cyflwyniad	3
Data presenoldeb	5
Rhesymau sylfaenol dros absenoldeb cynyddol dysgwyr	13
Rhesymau sy'n bodoli eisoes dros absenoldeb a waethygir gan COVID-19	14
Rhesymau newydd yn ymwneud â COVID-19 dros absenoldeb	16
Strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb	19
Ailsefydlu ac ymestyn arfer orau sy'n bodoli eisoes	19
Pwysau llwyth gwaith a chapasiti staffio	30
Crynodeb o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru	35
Atodiadau	37
Cylch gorchwyl	37
Ymgynghoriadau sy'n cyfrannu at yr adolygiad a'r fethodoleg	37
Astudiaethau achos	39
Ysgol Bontnewydd, Gwynedd	39
Ysgol Godre'r Berwyn, Gwynedd	39
Ysgol Llys Hywel, Sir Gaerfyrddin -	40
Ysgol Gatholig St John Lloyd, Sir Gaerfyrddin	41
Ysgol y Parc, Rhondda Cynon Taf	41
Ysgol Uwchradd Pontypridd, Rhondda Cynon Taf - 860 o ddisgyblion, ysgol uwchradd	42
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Brynbuga, Sir Fynwy	43
Ysgol Uwchradd Cas-gwent, Sir Fynwy -	44
Adolygiad llenyddiaeth	45
Cyfeiriadau	50

Ynglŷn â'r awdur

Meilyr Rowlands oedd Prif Arolygydd Estyn rhwng 2015 a 2021. Cyn hynny, bu'n dysgu gwyddoniaeth yn Ysgol Botwnnog ac Ysgol Aberconwy ac roedd yn hyfforddwr athrawon ym Mhrifysgol Bangor ac yn UWIC, lle bu'n gyfarwyddwr y cwrs TAR uwchradd. Bu hefyd yn gweithio yn Estyn fel arolygydd, rheolwr arolygydd a chyfarwyddwr strategol.

Cyflwyniad

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith hynod arwyddocaol ar ein bywydau ni i gyd ac ar bob agwedd ar addysg yng Nghymru. Mae rhywfaint o'r effaith hon wedi bod yn amlwg ac uniongyrchol, er enghraifft canlyniadau'r salwch ei hun a cholli amser astudio yn yr ysgol wedi hynny. Mae effeithiau eraill wedi bod yn fwy cynnil ac nid ydynt o reidrwydd yn hawdd eu hasesu, er enghraifft mae'r effaith ar les ac iechyd meddwl dysgwyrⁱ a staff fel ei gilydd yn anoddach i'w mesur ond gall fod hyd yn oed yn fwy arwyddocaol yn y tymor hir. Mae'r effeithiau hyn yn dal i fynd rhagddynt ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn gydag ymddangosiad yr amrywiad omicron a brigiad pellach yr haint. Mae'r ansicrwydd sy'n deillio o hyn yn peri gofid i ddysgwyr a staff ac mae'n gwneud cynllunio polisi ar bob lefel hyd yn oed yn fwy heriol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i mi arolygu tueddiadau presenoldeb diweddar yng ngoleuni'r pandemig, i gynnig dealltwriaeth o'r rhesymau dros ddiffyg presenoldeb, ac awgrymu unrhyw fesurau neu ymyriadau ychwanegol a allai helpu cefnogi ac ailgysylltu dysgwyr â'u haddysg, yn enwedig y rhai y cynyddodd eu habsenoldeb yn ystod y cyfnod hwn (gweler yr atodiad ar gyfer cylch gorchwyl yr adolygiad). Rwy'n ddiolchgar iawn i bawb a roddodd yn hael o'u hamser i'm helpu gyda'r adolygiad (gweler yr atodiad am restr o ymgynghoriadau), gan gynnwys y dysgwyr a'r gweithwyr proffesiynol a gymerodd amser i wneud hynny yn ystod cyfnod anodd a phrysur iddynt. Cyfrannodd pawb yn gymwynasgar a di-flewyn-ar-dafod.

Yn ystod yr adolygiad, cyfeiriodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw at ystod eang o resymau dros ddiffyg presenoldeb ac awgrymu llawer o ymyriadau addysgol gwahanol a allai gyfrannu at wella presenoldeb dysgwyr. Nid yw ehangder yr ymatebion yn syndod gan fod gwahanol elfennau o'r system addysg yn gydberthynol ac mae gwelliant i un agwedd yn aml yn gofyn am ymateb 'system gyfan' i sicrhau llwyddiant. Mae'r adolygiad hwn felly wedi ceisio cynnal arolwg o brif nodweddion y dirwedd bolisi eang a chymhleth hon ac wedi nodi ar wahanol adegau lle y byddai'n ddefnyddiol gwneud ymchwil pellach. Er bod llawer o'r awgrymiadau a wnaed yn ymwneud â strategaethau hirdymor, mae'r adolygiad hefyd yn nodi argymhellion ar gyfer camau gweithredu a ddylai gael effaith tymor byrrach neu ganolig.

Yr argraff hollbwysig a adawyd gan y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod yr adolygiad yw system addysg sy'n gweithio'n galed, yn wydn ac yn adeiladol, ond yn un sydd dan straen sylweddol. Mae llawer o waith pellach ar ôl i'w wneud i oresgyn effeithiau'r pandemig, gan gynnwys sicrhau bod pob dysgwr yn ennill y sgiliau a'r ddealltwriaeth gysyniadol sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudiaeth neu waith pellach, yn ogystal â mynd i'r afael ag ystod o faterion lles personol ac iechyd meddwl sydd wedi codi yn ystod y cyfnod hwn. Nid yw'n hawdd amcangyfrif pa mor hir y bydd y broses hon yn ei gymryd. Mae gwella presenoldeb, fel gydag unrhyw agwedd arall ar y broses hon, yn dibynnu ar ehangder a chydlyniant yr ymateb gan y system addysg gyfan.

Fodd bynnag, yn aml erbyn hyn mae llai o weithwyr proffesiynol ar gael i wneud y gwaith ychwanegol hwn oherwydd salwch neu effeithiau eraill y pandemig. Er enghraifft, siaradais ag un pennaeth a oedd yn addysgu pedair

gwers y diwrnod hwnnw oherwydd nad oedd neb arall i gyflenwi yn y dosbarthiadau. Yn amlwg, mae trefniadau o'r fath yn anghynnaladwy yn y tymor hwy ac mae angen amser ar uwch arweinwyr i gynllunio, rheoli ac arwain os yw'r system addysg am ymateb mewn ffordd gydgysylltiedig ac effeithiol i alwadau cynyddol. Yn y cyd-destun hwn o bwysau llwyth gwaith cynyddol a heriau o ran capasiti y gwneir yr awgrymiadau, yr argymhellion i Lywodraeth Cymru ac ystyriaethau ehangach a godwyd yn yr adroddiad hwn. Bwriedir iddynt fod yn ddefnyddiol ac arwain at fwy o gapasiti systemig, yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae'r cyd-destun polisi ehangach wedi'i nodi yn nogfen Llywodraeth Cymru 'Adnewyddu a diwygio: cefnogi lles a chynnydd dysgwyr'ⁱⁱ.

Mae'r adolygiad yn rhagdybio bod amrywiaeth o resymau neu achosion sylfaenol dros absenoldeb dysgwyr, gan gynnwys achosion cymhleth a lluosog. Mae hefyd yn rhagdybio bod presenoldeb dysgwyr yn gorwedd ar gontinwmm eang, er bod presenoldeb dysgwyr unigol yn aml yn cael ei gategoreiddio gan ddefnyddio termau amrywiol fel absenoldeb parhaol, absenoldeb aml ac achlysurol. Mae yna hefyd grŵp o ddysgwyr pryderus nad yw eu presenoldeb o reidrwydd wedi'i effeithio gan y pandemig ond y mae eu cynnydd a'u cymhelliant wedi'u heffeithio'n wael serch hynny gan yr amhariad ar eu haddysg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Ar ben arall y sbectrwm, bydd dysgwyr nad ydynt yn dechnegol absennol oherwydd nad ydynt bellach ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys y rhai sydd wedi dewis addysg gartref a'r rhai sydd wedi'u gwahardd. Er bod ffocws yr adolygiad ar wella presenoldeb, mae achosion sylfaenol absenoldeb hefyd yn effeithio ar y grwpiau eraill hyn o ddysgwyr a'r gobaith yw y bydd canfyddiadau'r adolygiad o gymorth ar gyfer yr achosion hyn hefyd.

Data presenoldeb

Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn casglu, dadansoddi a chyhoeddi data presenoldeb mewn ysgolion a gynhelir wedi newid yn ystod y pandemig. Oherwydd y gwahaniaethau yn y ffordd y caiff presenoldeb ei gofnodi, ei ddadansoddi a'i gyhoeddi cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig mae'n anodd nodi tueddiadau'n llawn neu ddod i gasgliadau manwl am gyfraddau presenoldeb nawr o gymharu â chyn y pandemig, er bod y tueddiadau cyffredinol yn ddigon clir i ddarparu sail ar gyfer datblygu polisi.

Cyn y pandemig, roedd data presenoldeb mewn ysgolion a gynhelir yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol ac ar ffurf a oedd yn cael ei grynhoi am flwyddyn academiaidd gyfan. Mae'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer y cyfnod cyn y pandemig ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018-2019. Mae'r data hwn yn dangos patrwm sy'n weddol debyg i batrwm y blynyddoedd blaenorol. Er enghraifft, mae cyfraddau absenoldeb uwch mewn ysgolion uwchradd o gymharu ag ysgolion cynradd, a chyfraddau absenoldeb uwch ar gyfer dysgwyr difreintiedig (y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (y rhai sydd â datganiad AAA neu ar Weithredu gan yr Ysgol a Mwy), fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 1 - Absenoldebau cyn-COVID-19ⁱⁱⁱ

Absenoldebau 2018-2019	Uwchradd	Cynradd
Pob disgybl	6.2%	5.3%
Dim FSM	5.3%	4.7%
FSM	10.5%	7.9%
Datganiad AAA	7.8%	7.7%
Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	10.3%	7.0%

Roedd gan rai grwpiau o ddysgwyr megis Roma, Teithwyr a dysgwyr Sipsiwn bresenoldeb gwael yn hanesyddol hefyd. Roedd presenoldeb cyffredinol wedi bod yn gwella'n raddol dros y degawd blaenorol, er ei fod wedi gwastatáu yn ystod ychydig flynyddoedd olaf y cyfnod hwnnw. Fel y gwelir o Dabl 1, byddai presenoldeb dysgwyr yn yr ysgol cyn y pandemig fel arfer wedi bod tua 94% ar gyfartaledd.

Ers mis Medi 2020, mae data presenoldeb wedi'i gasglu a'i gyhoeddi'n wythnosol ar lefel uwch o fanylder, ac mae bellach yn cynnwys cyfraddau presenoldeb cenedlaethol dyddiol nad oedd ar gael yn flaenorol. Mae Llywodraeth Cymru yn lawrlwytho data presenoldeb ysgol yn uniongyrchol o gyfrifon presenoldeb arferol yr ysgol fel nad oes gan ysgolion y dasg weinyddol ychwanegol o gyflwyno'r data hwn i Lywodraeth Cymru. Mae'r broses hon yn rhoi darlun 'amser real' bron o bresenoldeb cyffredinol mewn ysgolion yng Nghymru.

Tabl 2 - Presenoldeb yn hydref 2021^{iv}

Wythnos yn cychwyn	Cyfartaledd % o ddisgyblion oedd yn bresennol
06/09/21	91.4
13/09/21	88.5
20/09/21	84.7
27/09/21	85.3
04/10/21	87.3
11/10/21	87.8
18/10/21	85.5
01/11/21	89.3
08/11/21	89.1
15/11/21	88.2
22/11/21	86.7
29/11/21	86.0
06/12/21	85.7
13/12/21	80.6

Gallwn weld o Dabl 2 bod presenoldeb (cyfanswm ar gyfer pob ysgol a gynhelir) yn ystod tymor yr hydref 2021 yn gyson wedi bod yn llawer is na blynyddoedd blaenorol, megis 2018- 2019, ac mae hefyd wedi amrywio'n fawr o wythnos i wythnos. Yn unol â'r ffigurau hyn, mae ysgolion unigol wedi dweud wrthym fod eu presenoldeb wedi bod i lawr, yn nodweddiadol o 5% ac fel arfer o fewn ystod o 2% a 10%.

Mae'r system 'godio' a ddefnyddir gan ysgolion i gofnodi presenoldeb neu absenoldeb disgyblion hefyd wedi'i haddasu ers COVID-19. Er enghraifft, cyflwynwyd codau newydd i ddynodi absenoldebau yn ymwneud â COVID-19 (e.e. 'Y' sy'n golygu 'Absenoldeb dan gyfarwyddyd yr ysgol oherwydd COVID-19' a 'I' sy'n golygu 'Dysgu o bell oherwydd COVID-19 (lle mae dysgwr yn gwarchod neu'n hunanynysu)'). Mae'r gwaith o fireinio'r system hon yn parhau. Er enghraifft, ers 22 Tachwedd 2021, mae salwch oherwydd COVID-19 (wedi'i godio gan ysgolion â ';' ychwanegol) wedi'i gynnwys yn ddefnyddiol o fewn 'rhesymau cysylltiedig â COVID-19' am absenoldebau (h.y. gan gynnwys y codau ; Y a I) yn Nhabl 7 o'r data wythnosol a gyhoeddir. Ar hyn o bryd, mae data presenoldeb yn cael ei gyhoeddi a'i gyflwyno mewn fformat wythnosol ac nid yw'n cael ei grynhoi ymhellach, er y deallir y bydd data presenoldeb grŵp blwyddyn yn cynnwys ffigur cryno treigl yn y dyfodol agos, gyda ffigurau pellach yn crynhoi presenoldeb cyffredinol ar gyfer blynyddoedd oedran cynradd ac ar gyfer blynyddoedd oed uwchradd. Sylwch hefyd fod data presenoldeb Llywodraeth Cymru yn cael ei gyhoeddi ar gyfer pob carfan blwyddyn ac nid ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd, pob oed, arbennig neu uwchradd. Felly, er enghraifft, mae data Blwyddyn 7 yn cynnwys yr holl ddisgyblion ym Mlwyddyn 7 mewn ysgolion a gynhelir gan gynnwys yn yr achos hwn ysgolion uwchradd, pob oed ac ysgolion arbennig.

Mae data dros dro ar gyfer yr wythnos yn dechrau 17 Ionawr 2022 yn dangos presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion a gynhelir o 88% ac absenoldebau oherwydd rhesymau cysylltiedig â COVID-19 o 3.8%. Mae'r ffigurau hyn yn

weddol nodweddiadol o'r wythnosau diwethaf ac yn awgrymu, hyd yn oed ar ôl dadgyfuno rhesymau'n ymwneud â COVID-19, nad yw presenoldeb yn gyffredinol wedi dychwelyd i lefelau cyn-COVID-19 eto^v. Nid yw'n bosibl cymharu data presenoldeb yn uniongyrchol o wahanol wledydd oherwydd yr amrywiaeth yn y ffordd y caiff y data ei ddiffinio, ei gasglu a'i ddadansoddi. Er enghraifft, mae data presenoldeb yn Lloegr yn seiliedig ar sampl hunan-ddethol o ysgolion sy'n cyflwyno eu ffigurau. Y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Lloegr, a gyhoeddwyd ar 11 Ionawr 2022, yw bod 88.6% o'r disgyblion a ariennir gan y wladwriaeth yn mynychu'r ysgol gydag absenoldeb yn gysylltiedig â COVID-19 yn 3.9%^{vi}.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi data presenoldeb dysgwyr ar lefel awdurdod lleol.^{vii} Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth gymharu presenoldeb dysgwyr rhwng gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru oherwydd y nifer gymharol fach o ddisgyblion dan sylw, amllder amrywiol COVID-19 mewn gwahanol ardaloedd, a'r ffordd yr oedd polisiâu lleol yn amrywio ar draws cyfnodau'r pandemig (cyfnodau clo a chyfnodau atal byr amrywiol, ailagor ysgolion, mynd i'r afael â 'tonnau' lleol o haint). Ar y gorau, mae dadansoddiadau (er enghraifft Sefydliad Polisi Addysg, Tachwedd 2020^{viii}) yn ystyried cyfraddau lleol gwahanol o haint, ond nid dosbarthiad oedran yr achosion. Byddai cymariaethau, boed ar lefelau lleol neu genedlaethol, yn fwyaf ystyrlon ar ôl i gamau olaf y pandemig ddod i ben, fel y gellid ystyried strategaethau cynnar megis annog dysgwyr â COVID-19 i beidio â mynychu neu raglenni dychwelyd yn raddol a allai fod wedi lleihau presenoldeb yn y tymor byr ond ei gynyddu yn y tymor hwy.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried y data sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, gan gynnwys data nas cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae ffynonellau heb eu cyhoeddi yn cynnwys data treigl ar gyfran y disgyblion heb unrhyw absenoldebau, 10.5 diwrnod neu fwy o absenoldeb, a 30.5 diwrnod neu fwy o absenoldeb (ac ar gyfer y cyfnod cyfatebol ym mlwyddyn academaidd 2018-2019) ar gyfer disgyblion ag ystod o nodweddion. Y rhesymeg dros gael y dadansoddiad 10.5 diwrnod hwn yw bod y cyfnod hunanynysu hyd at 10 diwrnod, a byddai rhywun yn disgwyl i absenoldebau o tua'r nifer hwn o ddiwrnodau fod yn nodwedd o'r data. Mae'r dadansoddiad yn cadarnhau mai'r cyfnod absenoldeb mwyaf cyffredin, ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 er enghraifft, yw rhwng 5.5 ac 20 diwrnod^{ix}.

Mae'r data hwn hefyd yn fwy cyffredinol o gymorth o ran gallu nodi tueddiadau o ran hyd absenoldebau. Er enghraifft, awgrymwyd y gallai mwy o absenoldebau cyffredinol o'r ysgol fod yn fwy oherwydd bod dysgwyr â chofnodion presenoldeb gwael yn absennol am gyfnod hwy yn hytrach na bod mwy o ddysgwyr yn absennol. Fodd bynnag, mae'r data'n dangos bod mwy o absenoldebau ysgol oherwydd bod mwy o ddysgwyr yn absennol a dysgwyr yn absennol am gyfnod hwy. Dangosir detholiad o'r data hwn yn y tabl isod.

Tabl 3 - Cyfran y disgyblion ag absenoldebau sylweddol^x

Cyfran y disgyblion â	10.5+ absenoldeb Medi - Rhag 2018	10.5+ absenoldeb Medi - 01 Rhag 2021	10.5+ absenoldeb Medi - 26 Ion 2022
Pob disgybl	8.2	20.1	35.9
Teithiwr	39.0	50.8	67.5
Sipsiwn	35.3	51.5	67.1
Asiaidd	5.9	14.5	29.0
FSM	17.3	33.3	51.5
dim fsm	6.1	15.8	30.5
AAA	13.4	27.5	42.0
dim AAA	6.6	17.8	32.2
fsm ac AAA	21.2	36.3	50.9

Mae'r tabl yn dangos bod cyfraddau absenoldeb cyffredinol wedi cynyddu ar gyfer pob grŵp o ddisgyblion yn ystod tymor yr hydref hwn o gymharu â'r hydref cyn y pandemig ac mae'n parhau i gynyddu. Yn benodol, mae absenoldebau ar gyfer dysgwyr Sipsiwn a Theithwyr, dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a disgyblion ag anghenion addysgol arbennig i gyd wedi cynyddu'n sylweddol, er nad yn anghymesur yn fwy nag ar gyfer dysgwyr eraill. Fodd bynnag, mae absenoldeb cynyddol y grwpiau hyn o ddisgyblion yn parhau i fod yn bryder sylweddol oherwydd eu lefel absoliwt uchel cyn ac ar ôl y pandemig.

Mae hefyd yn debygol bod patrymau hanesyddol eraill yn parhau yn fras. Mae cyfraddau absenoldeb uwch o hyd mewn grwpiau blwyddyn ysgol uwchradd yn hytrach nag yn y cynradd yn ddyddiol ac yn wythnosol ac felly yn gyffredinol. Mae'r data presenoldeb wythnosol a gyhoeddir ar hyn o bryd yn dangos yn gyson bod presenoldeb yn gostwng wrth i ddisgyblion oedran statudol fynd yn hŷn, gyda phresenoldeb ar gyfer dysgwyr ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 11 (yng nghyfnod allweddol 4) ac ar gyfer y rheini ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 (yn y chweched dosbarth) yn arbennig o bryderus^{xi}.

Bu dadlau yn y gorffennol ynghylch arwyddocâd cymharol absenoldeb cyffredinol neu absenoldeb anawdurdodedig wrth ddadansoddi data presenoldeb. Mae absenoldeb cyffredinol yn haws i'w ddiffinio gan fod y ffin rhwng absenoldeb awdurdodedig ac anawdurdodedig yn amodol ar ddehongliad, trafodaeth a newid. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae effaith absenoldeb ar ddysgu yn debyg p'un a yw'r absenoldeb wedi'i awdurdodi ai peidio a bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ddata presenoldeb ac absenoldeb cyffredinol. Mae'n ddiddorol nodi bod llawer o ysgolion yn gweld yn gynyddol mai dadansoddi eu data presenoldeb yn ôl absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19 a heb fod yn gysylltiedig â COVID-19 sydd fwyaf defnyddiol iddynt.

Er bod presenoldeb dysgwyr wedi gostwng yn gyffredinol o gymharu â chyn y pandemig, gellir dadlau bod hyn i'w ddisgwyl i ryw raddau. Yr hyn nad ydym yn ei wybod yw faint o bresenoldeb y gellid yn rhesymol fod wedi'i wella o dan yr amgylchiadau hyn neu effaith gymharol mentrau amrywiol ar bresenoldeb. Gallai trafodaethau â gwledydd tebyg megis y gwledydd cartref a Gweriniaeth Iwerddon fod yn gymariaethau defnyddiol at y diben hwn. Mae'r holl wledydd cartref yn adrodd am fwy o absenoldebau dysgwyr yn dilyn y pandemig, ond mae gwahaniaethau mewn cofnodi ac adrodd yn ei gwneud yn anodd gwneud cymariaethau manwl. Er ein bod yn cydnabod yr heriau sylweddol o sicrhau cytundeb rhwng gwledydd ynghylch casglu data, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried arferion cofnodi presenoldeb a chodio ar y cyd yn awr, yn enwedig gan fod newidiadau sylweddol wedi bod yn y codau a ddefnyddir ar gyfer cofnodi presenoldeb mewn gweinyddiaethau eraill yn ddiweddar, er enghraifft, mae codau wedi'u newid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon^{xii} ac mae cynigion ar gyfer newidiadau hefyd wedi'u gwneud yn Lloegr.

*** Argymhelliad - Trafod diffinio, cofnodi a dadansoddi data presenoldeb gyda gwledydd tebyg er mwyn dysgu o'r arfer diweddaraf ac ystyried sut y gellir hwyluso ymhellach gymharu data a pholisi**

Bu dadl hefyd ynghylch y diffiniad o absenoldeb 'parhaus', a ystyrir yn gyffredinol ar hyn o bryd fel presenoldeb o lai nag 80% (neu fwy nag 20% o absenoldeb) yng Nghymru. Mae hyn yn arwyddocaol gan ei fod yn aml yn cael ei osod fel y sbardun ar gyfer rhai mathau o ymyriadau megis cyfranogiad y gwasanaeth lles addysg. Cyflwynwyd dadleuon cryf yn ystod yr ymgynghoriad y gallai diffiniad o bresenoldeb gwaeth nag 85% fel yng Ngogledd Iwerddon (ac mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn ymarferol) neu 90% fel yn Lloegr, arwain at ymyrraeth gynharach a chanlyniadau gwell.

*** Argymhelliad - Adolygu'r diffiniad o absenoldeb parhaus a'r pwyntiau sbarduno cysylltiedig ar gyfer ymyriadau**

Yn ymarferol, mae'n annhebygol y byddai gwasanaethau cymorth yng Nghymru, megis gwasanaethau lles addysg awdurdodau lleol, gwasanaethau ieuencid neu wasanaethau cymdeithasol, yn gallu ymdopi o dan yr amgylchiadau presennol gyda chynnydd mewn llwyth gwaith^{xiii} ac felly ni fyddai gweithredu'r awgrym hwn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol yn y tymor byr heb gynyddu capasiti'r gwasanaethau hyn.

Data hynt Gyrfa Cymru

Bob blwyddyn, mae Gyrfa Cymru yn cynnal arolwg o hynt holl ymadawyr Blwyddyn 11 i weld a ydynt yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant neu wedi dechrau cyflogaeth. Mae'n ymddangos bod cyfraddau aros ymlaen mewn addysg amser llawn ar gyfer ymadawyr Blwyddyn 11 2020 (90.4%) wedi cynyddu tua 2 bwynt canran o gymharu â 2019 (88.2%)^{xiv}. Mae trafodaethau ynghylch adborth cychwynnol yn dangos bod y duedd hon yn parhau'n fras ar gyfer ymadawyr 2021, a bydd data terfynol yn cael ei gyhoeddi gan Gyrfa Cymru yng ngwanwyn 2022. Mae hefyd yn ymddangos bod cyfran y rhai sy'n gadael yr ysgol nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na

hyfforddiant (NEET) yn parhau yn isel yn gyffredinol, o leiaf yn y tymor byr, ac nid yw wedi cynyddu'n sylweddol. Cynigwyd rhesymau posibl dros y cynnydd mewn addysg llawn amser yn ystod yr ymgynghoriadau, gan gynnwys bod gwell graddau TGAU a chymwysterau eraill wedi golygu bod mwy o fyfyrwyr wedi symud ymlaen i'r cyrsiau lefel nesaf nag yn y gorffennol.

Fodd bynnag, mae pryderon efallai na fydd y duedd hon yn gynaliadwy. Er enghraifft, os yw graddau TGAU a chymwysterau eraill yn parhau i fod yn uwch nag yn y gorffennol yna gall arweinwyr cyrsiau dilyniant gynyddu eu graddau derbyn. Mae pryder hefyd, er bod graddau wedi cynyddu, bod addysg y carfannau myfyrwyr presennol wedi cael ei amharu ac y gallai fod ganddynt fylchau sgiliau a gwybodaeth a fydd, os na chaiff sylw, yn ei gwneud yn anos iddynt barhau ar eu cyrsiau dethol. Mae gwaith yn mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru ar ddadansoddi dilyniant myfyrwyr Blwyddyn 11 i ddysgu ôl-16 ar gyfer 2021-2022, a fydd hefyd yn edrych ar ddata ar fyfyrwyr sy'n gadael neu'n newid rhaglenni ôl-16.

Data ar gyfer Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ac Addysg Ddewisol yn y Cartref (EHE)^{xv}

Ni ymddengys bod nifer y dysgwyr sy'n cael eu haddysg heblaw yn yr ysgol (gan gynnwys mewn unedau cyfeirio disgyblion neu'n cael eu tiwtora gartref er enghraifft) i bob golwg wedi cynyddu'n sylweddol yn 2020-21 o gymharu â blynnyddoedd blaenorol. Mae'r nifer ar gyfer 2020-21 yn debyg i'r un ar gyfer 2018-19, er roedd y nifer ar gyfer 2019-20 yn sylweddol is. Er nad oes unrhyw esboniad wedi'i awgrymu am y patrwm hwn, mae'n bosibl bod uchafswm capasiti ar gyfer darpariaeth AHY na ellir mynd y tu hwnt iddo, hyd yn oed pan fydd y galw'n cynyddu.

Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr y mae eu rhieni wedi dewis eu haddysgu gartref wedi cynyddu'n sylweddol i ychydig dros 4,000 yn 2020-21, tra mewn blynnyddoedd blaenorol nid oedd y nifer erioed wedi bod yn fwy nag oddeutu 2,500 (yn 2018-19). Gwelwyd cynnydd tebyg mewn EHE yn Lloegr^{xvi}. Awgrymwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy mai'r rhesymau posibl am y cynnydd hwn yw bod rhai teuluoedd yn dewis addysg gartref oherwydd eu bod yn ofni effeithiau parhaus COVID-19, tra i eraill y gallai'r profiad o addysg gartref yn ystod y cyfyngiadau symud fod wedi rhoi'r hyder iddynt ddewis addysg yn y cartref yn y tymor hwy. Byddai'n ddefnyddiol gwneud rhagor o ymchwil i'r rhesymau a roddwyd gan deuluoedd ynghylch pam eu bod yn gynyddol ddewis addysg yn y cartref.

Ymchwil arall i ddata presenoldeb

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i WISERD ddadansoddi data presenoldeb hydredol ar lefel dysgwr unigol er mwyn nodi patrymau presenoldeb dysgwyr dros eu gyrfa ysgol 11 mlynedd. Mae dadansoddiad cychwynnol wedi nodi pedwar grŵp posibl o ddisgyblion, sef y rheini â:

- Phresenoldeb cyson dda: Roedd gan 41% o'r sampl lefelau presenoldeb a oedd yn gyson uchel ar draws y cyfnod 11 mlynedd, gyda'r gyfran a

brofodd hyd at 2 wythnos o absenoldeb heb fod yn gostwng yn is na 70% mewn blwyddyn am y cyfnod 11 mlynedd.

- Lefelau uchel o ddiffyg presenoldeb: Dangosodd grŵp o bobl ifanc, a oedd yn cyfrif am 9% o'r sampl, lefelau cyson o ddiffyg presenoldeb dros yr 11 mlynedd, gyda'r rhai a gollodd fwy na 6 wythnos o ysgol yn cyrraedd uchafbwynt o 46% o fewn blwyddyn academiaidd.
- Gwella yn yr ysgol uwchradd: Gall y patrwm o wella presenoldeb hyd at Flwyddyn 6 gyda newid sylweddol ym Mlwyddyn 7, a welir yn y garfan gyfan, gael ei yrru'n rhannol gan un grŵp o unigolion, sef 32% o'r sampl.
- Presenoldeb problematig: Roedd gan grŵp diwethaf o fyfyrwyr lefelau o ddiffyg presenoldeb y gellid eu hystyried yn broblemus ond yn brin o ddiffyg presenoldeb cyson parhaus, gan gyfrif am 19% o'r sampl.^{xvii}

Gallai ymchwil pellach roi mewnwelediad i batrymau absenoldeb dysgwyr unigol a allai helpu i lunio polisiau yn y dyfodol. Yn benodol, byddai'n ddefnyddiol datblygu teipoleg o batrymau presenoldeb a nodi rhag-batrymau a allai ddangos dirywiad posibl mewn presenoldeb. Yna gellid cysylltu categorïau teipoleg o'r fath ag ymatebion cymorth gwahaniaethol awgrymedig.

Mae'n hysbys hefyd y gall presenoldeb sy'n dirywio fod yn rhagflaenydd ac yn rhagfynegydd i ystod o broblemau ymddygiadol ac emosiynol ar gyfer dysgwyr a allai arwain at wahardd y dysgwyr hyn o'r ysgol os na chaiff sylw^{xviii}. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai ymchwil pellach i batrymau presenoldeb hefyd ganolbwyntio ar y ffordd orau o nodi a chefnogi dysgwyr a allai fod ar fin cael eu gwahardd.

*** Argymhelliad - Cynnal ymchwil pellach i batrymau presenoldeb a fyddai'n helpu nodi dysgwyr a allai fod mewn perygl o gael eu gwahardd**

Data presenoldeb staff ysgol

Dywedwyd wrthym fod absenoldeb staff ysgol (gan gynnwys ar gyfer uwch staff ysgol, athrawon, a chynorthwyr athrawon a hefyd staff ar draws ystod o wasanaethau cymorth awdurdodau lleol) yn uwch nag arfer ar hyn o bryd oherwydd amrywiaeth o resymau'n ymwneud â COVID-19, gan gynnwys absenoldeb oherwydd salwch, hunanynysu neu bryder. Fodd bynnag, ychydig o ddata swyddogol sydd ar gael yng Nghymru ar bresenoldeb staff ysgol neu batrymau salwch ar gyfer cyn neu ar ôl i'r pandemig ddechrau. Roedd ciplun o absenoldeb athrawon yn ystod wythnos gyntaf Ionawr 2022 (yn seiliedig ar sampl o ffurflenni awdurdodau lleol) yn awgrymu bod absenoldeb athrawon yr wythnos honno tua 10%^{xix} sydd tua dwywaith yn uwch na'r disgwyl fel arfer.

Mae data cyhoeddedig arall yn awgrymu bod nifer cyfartalog y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch ar gyfer athrawon llawn amser wedi gostwng i 6 diwrnod yn 2020 o 7 diwrnod yn 2019, 2018, 2017, 2016 a 2015^{xx}. Mae'n bosibl bod y canfyddiad gwrth-sythweledol hwn yn gysylltiedig â gostyngiad posibl o salwch yr adroddwyd amdano yn ystod y cyfnod cloi. Gweler Rheoli presenoldeb gweithlu ysgolion yn effeithiol mewn ysgolion cynradd (Estyn, 2017)^{xxi} a Trefniadau Cyflenwi ar gyfer Absenoldeb Athrawon: Dilyniant

(Archwiliad Cymru, 2020)^{xxii} am arfer dda a rhagor o fanylion am reoli'r gweithlu ysgolion.

Mae diffyg data presenoldeb staff ysgol yn gwneud asesu effaith y pandemig ar brofiad addysgol dysgwyr yn anodd, gan fod eu profiad dysgu'n dibynnu nid yn unig ar bresenoldeb y dysgwr ei hun ond hefyd a oedd yn cael ei addysgu gan ei athro arferol neu gan arbenigwr pwnc, pan yr oedd yn mynychu. Mae gwledydd cartref eraill hefyd wedi nodi'r bwlch hwn yn eu data addysg, ac mae Gogledd Iwerddon er enghraifft wedi cyflwyno casgliad dyddiol ar lefel genedlaethol o bresenoldeb athrawon yn ddiweddar.

- * **Argymhelliad - Ystyried y ffordd orau o gasglu, dadansoddi a chyhoeddi presenoldeb staff addysg yn fwy manwl**
- * **Argymhelliad - Archwilio datblygu a chyhoeddi set o fetrigau ar gyfer profiad dysgwyr sy'n cynnwys data ar absenoldeb athrawon, y defnydd o staff cyflenwi, ac argaeledd arbenigwyr pwnc**

Rhesymau sylfaenol dros absenoldeb cynyddol dysgwyr

Pwysleisiodd y dysgwyr y sioc aruthrol a gawsant wrth ailintegreiddio'n gyflym yn ôl i'r ysgol ar ôl cyfnod hir o gyfyngiadau symud ac aflonyddwch. Er bod y pontio wedi bod yn arbennig o anodd i leiafrif, ac wedi arwain at bryderon lles ac iechyd meddwl difrifol mewn rhai achosion, dywedodd pob dysgwr eu bod wedi profi rhywfaint o ddryswch a bod llawer yn teimlo'n fwy agored i niwed. Dywedodd dysgwyr fod llawer o ddysgwyr wedi colli rhai o'u sgiliau cymdeithasol ac astudio sylfaenol, gan gynnwys y gallu i ganolbwyntio ar astudio am amser estynedig. Ychwanegodd hyn oll at y straen a'r pwysau a deimlent wrth ddychwelyd i'r ysgol ac ymdopi â gwaith academiaidd ac amgylchedd cymdeithasol anghyfarwydd yn sydyn.

Ategwyd canfyddiadau'r dadansoddiad o ddata presenoldeb a gyflwynwyd yn adran 2 gan y gweithwyr addysg proffesiynol a gyfwelwyd. Dywedodd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw fod absenoldeb dysgwyr wedi cynyddu ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr a bod dau reswm cyffredinol dros y cynnydd: roedd amrywiaeth o resymau newydd yn ymwneud â COVID-19 dros absenoldeb, ac roedd problemau presenoldeb hirsefydlog cyn COVID-19 yn parhau ac wedi eu gwaethygu gan y pandemig. Y teimlad cyffredinol oedd bod presenoldeb wedi gwaethygu'n sylweddol ar gyfer dysgwyr o bob nodwedd (gweler Tabl 3) a bod hyn yn bryder.

Cyn COVID-19, roedd wedi'i hen sefydlu bod dysgwyr sy'n agored i niwed (a ddiffinnir yn y llenyddiaeth fel y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ag anghenion dysgu ychwanegol, neu â Saesneg fel iaith ychwanegol) yn fwy tebygol o fod â chofnodion presenoldeb gwaeth. Ceir cydberthnasau rhwng cynnydd mewn absenoldeb ac amddifadedd (a fesurir yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim), ac anghenion dysgu ychwanegol (datganiad o AAA a gweithredu gan yr ysgol a mwy), fel y crybwyllwyd eisoes. Roedd y cynnydd mewn absenoldeb ar gyfer dysgwyr difreintiedig a grwpiau eraill sy'n agored i niwed yn bryder arbennig oherwydd y lefelau absenoldeb absoliwt uchel ac oherwydd y teimlad bod y dysgwyr hyn wedi cael cyfnod anoddach i'w dysgu o dan y cyfyngiadau symud na dysgwyr mwy breintiedig ac felly roedd angen iddynt fod yn ôl yn rheolaidd yn yr ysgol nawr er mwyn i drefniadau cymorth gael effaith.

Pwysleisiwyd hefyd gan ymgynghoreion fod y darlun presenoldeb yn un cymhleth ac nad yw'n hawdd ei gyffredinoli. Gall patrymau presenoldeb a thueddiadau mewn ysgolion unigol newid llawer dros amser a dywedwyd eu bod yn amrywiol iawn. Mae'r amrywioldeb hwn oherwydd COVID-19 yn effeithio ar ysgolion mewn tonnau - COVID-19 yn 'rhedeg yn boeth ac yn oer' ar wahanol adegau mewn gwahanol ardaloedd. Mae rhai ysgolion wedi profi mwy o 'donnau' COVID-19 nag eraill. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd rhagweld patrymau presenoldeb ar gyfer dysgwyr unigol, gan gynnwys pan oedd eu presenoldeb wedi bod yn dda cyn COVID-19. Cymhlethdod posibl pellach yw y gall ffactorau amrywiol effeithio ar wahanol grwpiau o ddysgwyr mewn ffyrdd amrywiol. Yn gyffredinol, mae p'un a yw dysgwr yn mynychu addysg orfodol neu'n absennol ei hun o addysg orfodol yn dibynnu ar ystod gymhleth o ffactorau sylfaenol, ac ar gyfer unrhyw ddysgwr penodol, gallai'r

rhesymau dros absenoldeb fod yn gyfuniad o resymau cyffredinol a phenodol. Mae'r ffactorau a'r rhesymau amrywiol a gafodd sylw amlycaf yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu trafod isod ar gyfer dysgwyr o wahanol nodweddion ac amgylchiadau cartref, a thrafodir canfyddiadau ymchwil academiaidd yn Atodiad D.

Rhesymau sy'n bodoli eisoes dros absenoldeb a waethygir gan COVID-19

Tlodi, anfantais a dysgwyr cymwys am brydau ysgol am ddim

Awgrymwyd ystod o resymau posibl pam y gallai absenoldebau dysgwyr yn y grŵp hwn fod wedi gwaethgu oherwydd y pandemig yn ystod ymgynghoriadau'r adolygiad. Er enghraifft, bron yn ôl diffiniad bydd gan deuluoedd difreintiedig lai o adnoddau (ariannol a chorfforol, ac yn aml hefyd emosiynol a diwylliannol) i'w defnyddio i ymdopi â sefyllfaoedd anodd. Er enghraifft, efallai bod ganddyn nhw adnoddau ffisegol gwaeth fel cyfleusterau cyfrifiadurol a rhyngwrwyd, lleoedd llai neu ddim lleoedd ar gyfer astudio'n dawel, llai o lyfrau ac yn y blaen, felly efallai eu bod wedi cael yr heriau addysgol o addysgu gartref yn ystod y cyfyngiadau symud yn anos na theuluoedd mwy breintiedig. O ganlyniad i'r profiad cloi negyddol hwn, efallai y bydd dychwelyd i'r ysgol yn fwy heriol i'r dysgwyr hyn nag i ddysgwyr mwy breintiedig, nad oeddent wedi profi'r anawsterau hyn yn ystod y cyfyngiadau symud.

Anghenion dysgu arbennig ac ychwanegol

Mae ffocws yr adolygiad hwn yn bennaf ar ddysgwyr mewn ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed. Parhaodd llawer o ddysgwyr sy'n mynychu ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion â'u haddysg yn yr ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud. Adroddwyd hefyd mai'r ysgolion â'r cyfraddau presenoldeb isaf yn ystod y pandemig a'i ganlyniadau fu ysgolion arbennig^{xxiii}. Bydd rhywfaint o'r absenoldeb hwn yn adlewyrchu penderfyniadau rhesymegol a wneir gan deuluoedd i'w plant beidio â mynychu'r ysgol, o ystyried bod gan ddisgyblion mewn ysgolion arbennig anghenion gofal iechyd penodol a'u bod yn fwy tebygol o ddioddef o gyflyrau meddygol sy'n eu gwneud yn fwy agored i'r firws. Gallent hefyd fod wedi gweld y pandemig yn straen ac yn heriol gan fod y coronafeirws yn fygythiad iechyd ychwanegol peryglus. O ganlyniad, mae'n anodd cyffredinoli ynglŷn â phresenoldeb mewn ysgolion arbennig y tu hwnt i'r uchod.

O ran dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd, mae'r data a drafodir uchod yn dangos, yn yr un modd â dysgwyr eraill, fod presenoldeb dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol wedi gostwng yn gyffredinol. Yn ystod yr ymgynghoriad, awgrymwyd ystod o resymau posibl pam y gallai'r pandemig fod wedi gwaethgu eu habsenoldeb. Clywsom hefyd dystiolaeth yn benodol am ddysgwyr ar y sbectrwm awtistig. Efallai bod rhai o'r disgyblion hyn wedi ffafrio agweddau ar ddysgu gartref a dysgu o bell, fel y cyfle i ddysgu ar eu cyflymder eu hunain ac ar yr adeg o'u dewis, ac yn credu bod yr amgylchedd dysgu gartref yn dawelach, yn fwy llonydd neu'n llai gwrthdymnidol nag yn yr ysgol. Fodd bynnag, rhybuddiodd arbenigwyr yn

erbyn cymryd bod dysgwyr awtistig o reidrwydd yn ffafrio astudio gartref. Roedd y dysgwyr hyn hefyd yn gwerthfawrogi ac yn colli perthnasoedd dynol, yn enwedig gyda ffrindiau a staff ysgol neu goleg yr oedden nhw'n ymddiried ynddynt a oedd yn eu deall nhw a'u hanghenion. Efallai eu bod hefyd wedi cael anawsterau wrth ddefnyddio technoleg yn ystod y cyfyngiadau symud a'r cyswllt dynol a ffefrir ganddynt, a dywedwyd hefyd bod llawer o'r dysgwyr hyn wedi mwynhau ailgysylltu â'r coleg a'r ysgol ac wedi mynychu'n dda ar ôl y cyfyngiadau symud. At ei gilydd, ychydig o sylw a gafodd absenoldeb o'r ysgol ymhlith dysgwyr sbectwm awtistiaeth a dysgwyr eraill ag anghenion dysgu ychwanegol gan ymchwilwyr ac mae'r ychydig sy'n bodoli yn rhagddyddio'r pandemig^{xxiv}.

Materion diwylliannol - Dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr oedd â'r lefelau presenoldeb gwaethaf o unrhyw grŵp ethnig lleiafrifol cyn y pandemig. Disgrifir y rhesymau am hyn a'r amrywiol strategaethau lliniaru a ddefnyddir gan ysgolion ac awdurdodau lleol mewn sawl adroddiad gan gynnwys adroddiadau Estyn^{xxv}. Mae swyddogion cymorth sy'n gweithio gyda'r dysgwyr hyn yn adrodd bod y rhan fwyaf o deuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi tynnu eu plant allan o ysgolion ar ddechrau'r pandemig a'i bod wedi bod yn arbennig o anodd, yn enwedig ar gyfer disgyblion oedran uwchradd, i berswadio'r teuluoedd hyn bod ysgolion bellach yn ddiogel. Mae'n ymddangos bod y pandemig wedi cryfhau rhagduediadau diwylliannol yn erbyn addysg uwchradd. Ni chodwyd unrhyw faterion diwylliannol eraill na grŵp ethnig lleiafrifol arall yn yr ymgynghoriadau fel rhai yr effeithiwyd arnynt yn arbennig gan y pandemig o ran presenoldeb, er bod ymchwil o'r UDA yn awgrymu bod rhieni nad ydynt yn Wyn yn poeni mwy am gadw at strategaethau lliniaru, ysgolion yn ailagor yn ddiogel, eu plentyn yn contractio COVID-19, a'u plentyn yn dod â COVID-19 adref o'i gymharu â rhieni Gwyn^{xxvi}.

Dylanwad rhieni a theuluoedd ag anghenion cymhleth a lluosog

Thema gyson yn y trafodaethau ymgynghori oedd y rôl allweddol a chwaraeir gan rieni a theuluoedd dysgwyr ym mhob mater presenoldeb. Ar gyfer dysgwyr iau mewn ysgolion cynradd yn arbennig, mae eu presenoldeb yn dibynnu'n fawr ar agweddau rhieni a theulu, yn anad dim gan eu bod yn aml yn dibynnu arnynt i'w cael yn gorfforol i'r ysgol. Mae rhai dysgwyr wedi sefydlu patrwm o beidio â mynychu'r ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud y maent hwy a'u teuluoedd yn ei chael yn anodd neu'n ddiangen i'w newid. Mewn rhai achosion efallai na fydd yr union resymau sylfaenol am yr absenoldebau hyn yn hysbys oherwydd bod gan y dysgwr a'r teulu anghenion lluosog, cymhleth sy'n hirsefydlog a hyd yn oed yn 'rhyngenedlaethol'. Roedd llawer o'r heriau hyn yn bodoli cyn y cyfyngiadau symud, ond mae rhai wedi'u nodi fel rhai sydd wedi dwysau ers hynny, ac o ganlyniad mae'r teuluoedd hyn wedi dod yn 'anos eu cyrraedd' ar ôl y pandemig. I bob dysgwr, mae rhieni a theuluoedd mewn sefyllfa dda, yn ogystal â'r dysgwyr eu hunain, i ddarparu mewnwelediad pwysig i'r rhesymau penodol dros absenoldeb, yn enwedig yn achos patrymau absenoldeb annodweddiadol.

Gorbryder, iechyd meddwl a lles a materion ymddieithrio

Mae patrymau presenoldeb gwael ar gyfer myfyrwyr cyn y pandemig yn aml yn gysylltiedig ag amrywiaeth o faterion gorbryder, iechyd meddwl a lles. Mae iechyd meddwl gwael yn arbennig wedi'i gysylltu'n flaenorol â phresenoldeb gwael yn yr ysgol, gyda phryder yn aml yn cael ei ddisgrifio fel ffactor risg allweddol. Mae llawer o agweddau ar leoliad yr ysgol a all achosi pryder, megis gwahanu oddi wrth rieni/gofalwyr, rhyngweithio cymdeithasol â chyfoedion a staff yr ysgol, a straen academiaidd. Gall hyn arwain plant i osgoi ysgol mewn ymgais i leihau eu pryder.

Mae'n bosibl bod y materion hyn a oedd yn bodoli eisoes, o ffobia ysgol i fwlio, wedi'u gwaethgu gan amgylchiadau'r pandemig – gweler yr adolygiad llenyddiaeth yn Atodiad C am fanylion yr ymchwil perthnasol. Roedd prif ffocws y trafodaethau ymgynghori ynghylch achosion newydd o bryder yn ymwneud â'r pandemig ac i ba raddau y gallai achosion pryder a oedd yn bodoli eisoes fod wedi gwaethgu, a chaiff y rhain eu hystyried yn fanylach yn yr is-adran nesaf. Mynd i'r afael ag achosion pryder sy'n bodoli eisoes ac achosion newydd o bryder a drafodir gyda'i gilydd yn adran 4 o'r adroddiad.

Rhesymau newydd yn ymwneud â COVID-19 dros absenoldeb

Mae yna hefyd ffactorau newydd sy'n effeithio ar bresenoldeb sy'n ymwneud fwy neu lai yn uniongyrchol â'r pandemig.

COVID-19 fel salwch, hunanynysu ac absenoldeb dan gyfarwyddyd ysgol

Y rheswm amlycaf yw salwch oherwydd COVID-19 ei hun. Dywedwyd yn gyson yn ystod ymgynghoriadau'r adolygiad bod llawer o blant wedi colli symiau sylweddol o addysg oherwydd salwch COVID-19. Yn ogystal, dywedir bod 'COVID-19 Hir' yn nodwedd gynyddol o absenoldeb dysgwyr.

Mae yna hefyd amrywiaeth o resymau'n ymwneud â COVID-19 dros absenoldeb nad yw'n ymwneud â bod yn sâl neu fod yn 'symptomatig'. Er enghraifft, bod yn ddi-symptomatig ac yn ynysu yn dilyn profion positif (LFT neu PCR), neu wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif (eu hunain neu eraill yn y cartref neu mewn grwpiau ysgol neu swigod).

Mae'r absenoldebau hyn yn cael eu codio gan 'Y' (absenoldeb dan gyfarwyddyd yr ysgol) a 'I' ar gyfer 'Dysgu o bell'. Mae absenoldeb dysgwyr y mae ysgolion yn meddwl y gallai fod oherwydd salwch yn cael ei godio 'I' gyda 'Y' ychwanegol os credir bod y salwch o ganlyniad i COVID-19. Ers 22 Tachwedd 2021, mae pob un o'r tri chod 'sy'n ymwneud â COVID-19' yn cael eu grwpio gyda'i gilydd a'u cyhoeddi'n wythnosol. Fel y trafodwyd yn yr adran ddata uchod, mae'r data'n awgrymu nad yw'r gostyngiadau presenoldeb presennol yn gyfan gwbl oherwydd yr absenoldebau uniongyrchol hyn sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Gorbryder, iechyd meddwl a materion lles

Fel y soniwyd uchod, mae consensws cyffredinol bod llawer o'r achosion sy'n sail i gynnydd mewn absenoldeb yn ymwneud â lles, gwydnwch neu iechyd

meddwl dysgwyr. Er enghraifft, efallai y bydd rhai myfyrwyr â hanes presenoldeb da yn flaenorol wedi datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod y cyfyngiadau symud. Mewn rhai achosion, dywedir bod disgyblion wedi datblygu pryder cyffredinol ynghylch dychwelyd i sefydliad mawr, prysur ar ôl cyfnod o dawelwch ac unigedd cymharol yn ystod y cyfyngiadau symud.

Er nad yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng ffynonellau pryderon o'r fath a gwahaniaethu rhwng pryderon a oedd yn bodoli eisoes a allai fod wedi gwaethgu yn ystod y cyfyngiadau symud (fel yr enghreifftiau a roddir uchod) a phryderon newydd sy'n ymwneud yn benodol â COVID-19, roedd prif ffocws y trafodaethau ymgynghori yn ymwneud ag achosion newydd pryder ynghylch y pandemig. Mae'r rhain yn cynnwys ofn y dysgwr (neu ei deulu) ynghylch dychwelyd i'r ysgol am amrywiaeth o resymau, megis pryder ynghylch diogelwch o ran iechyd (gan gynnwys pryderon am y posibilrwydd o ddal COVID-19 ac effeithio ar ei iechyd ei hun neu drosglwyddo'r firws i aelodau bregus o'r teulu), yn ogystal â'r ofn o fethu ag ymdopi â gofynion addysgol yr ysgol.

Gallai ofn methu ag ymdopi â gwaith ysgol ddeillio o golli sgiliau neu wybodaeth (gwirioneddol neu ddychmygol) yn ystod y cyfyngiadau symud, neu ofn ynghylch gofynion astudio ar gyfer cymwysterau (arholiadau neu waith cwrs). Arwydd penodol o'r ofn hwn i rai dysgwyr yw datblygiad hoffter o barhau i astudio'n ddigidol gartref. Mae goblygiadau'r mathau hyn o bryder yn cael eu harchwilio ymhellach yn yr adrannau a ganlyn.

Ymddieithrio ac agweddau mwy hamddenol at ddysgu

Adroddwyd bod agwedd fwy llac, gan ddysgwyr a rhieni, tuag at bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol yn gynyddol amlwg, gan gynnwys gan ddysgwyr a oedd wedi dangos presenoldeb da yn flaenorol. Amlygiad penodol o'r agwedd hon yw cynnydd mewn absenoldeb 'tactegol' cyn gwyliau neu ddigwyddiadau teuluol, a'r pwrpas yw osgoi cyswllt posibl â'r firws a fyddai'n peryglu trefniadau gwyliau.

Mae'n bosibl mai rhan o'r rheswm dros yr agwedd gyffredinol achlysurol hon tuag at ddysgu ac addysg yn arbennig yw'r elfen o ymddieithrio ag addysg a ddechreuodd yn ystod y cyfyngiadau symud ac sydd wedi'i gwaethgu ers hynny gan ddiffyg amynedd oherwydd tarfu parhaus ar fywyd ysgol sy'n gysylltiedig â COVID-19, megis absenoldebau staff neu drefniadau hylendid newydd, a chred y gellir dal i fyny ar golli amser ysgol drwy ddulliau eraill, gan gynnwys trefniadau dal i fyny yn yr ysgol a dysgu cyfunol.

Crynodeb o nodweddion dysgwyr ac amgylchiadau cartref a allai fod wrth wraidd mwy o absenoldeb

Rhesymau sy'n bodoli eisoes a waethgir gan COVID-19

- tlodi - dysgwyr difreintiedig
- anghenion dysgu ychwanegol
- materion diwylliannol - dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- dylanwad rhieni a theuluoedd anodd eu cyrraedd
- gorbryder, iechyd meddwl a lles a materion ymddieithrio

Rhesymau newydd yn ymwneud â COVID-19

- COVID-19 fel salwch, hunanynysu ac absenoldeb dan gyfarwyddyd ysgol
- gorbryder, iechyd meddwl a materion lles
 - yn gysylltiedig i bryderon iechyd
 - yn gysylltiedig i bryderon addysg
- ymddieithrio ac agweddau mwy hamddenol at ddysgu a phresenoldeb

Strategaethau ar gyfer gwella presenoldeb

Pwysleisiodd y dysgwyr bwysigrwydd canolog iddynt fod ysgolion yn cymryd eu materion lles ac iechyd meddwl 'o ddifrif'. Roeddent yn croesawu'r dull gweithredu cyffredinol sy'n canolbwyntio ar les a ddefnyddir gan y rhan fwyaf o ysgolion. Roeddent yn gwerthfawrogi'n benodol unrhyw gymorth bugeiliol ychwanegol a ddarparwyd i'w helpu i wneud y cyfnod pontio anodd yn ôl i addysg 'arferol' mor hawdd â phosibl. Amlygwyd yn arbennig bwysigrwydd iddynt sicrhau bod ysgolion yn sicrhau ethos cadarnhaol, blaengar a chyfeillgar - o athrawon a staff bugeiliol eraill yn gofyn iddynt yn unigol sut yr oeddent - ac ar gyfer darparu cefnogaeth arbenigol a grwpiau anogaeth os oes angen. Roeddent yn teimlo y byddai gofyn i ddysgwyr am eu barn ar sut y gellid cyflawni hyn, er enghraifft trwy ymgynghori â chynghorau ysgol, yn werthfawr, yn ogystal â rhoi rhywfaint o reolaeth i ddysgwyr, yn enwedig rhai hyn, dros sut a phryd y maent yn dysgu.

Ailsefydlu ac ymestyn arfer orau sy'n bodoli eisoes

Mae lles ac iechyd meddwl hefyd yn effeithio ar bresenoldeb dysgwyr yn yr ysgol, yn ogystal â bod yn uniongyrchol gysylltiedig ag iechyd corfforol, a chan agweddau tuag at ddysgu ac addysg (a elwir hefyd yn ymgysylltiad neu gysylltedd ysgol yn y llenyddiaeth). Ystyrir bod y rhyngberthynas rhwng presenoldeb a lles cyffredinol mor gryf fel bod presenoldeb yn aml wedi'i gymryd fel mesur dirprwyol ar gyfer llesiant yn y gorffennol. Gwyddom hefyd fod presenoldeb yn cael effaith gref ar ddeilliannau, safonau a dilyniant dysgwyr. Er enghraifft, mae canlyniadau arholiadau yn cyfateb yn gryf i gyfraddau presenoldeb^{xxvii}.

Oherwydd y cysylltiad sefydledig hwn rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad, mae gwella presenoldeb dysgwyr wedi bod yn nod polisi pwysig i Lywodraethau olynol Cymru^{xxviii}^{xxix} ers tro byd, fel yn ogystal ag ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion unigol. Arweiniodd y ffocws penodol ar bresenoldeb ym mholisiau'r llywodraeth, gan gynnwys ei gynnwys fel mesur mewn categorïau ac mewn trefniadau arolygu, at welliant cyson mewn cyfraddau presenoldeb dros y degawd diwethaf.

Cyn y pandemig, roedd consensws eang ynghylch yr hyn a oedd yn gyfystyr ag arfer gorau ar gyfer gwella presenoldeb. Sicrhawyd bod cyfres o adolygiadau, adroddiadau a phecynnau cymorth ar gael, gan gynnwys gan yr arolygiaeth^{xxx} ^{xxxi}. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith y gweithwyr addysg proffesiynol yr ymgynghorwyd â nhw bod y strategaethau cyn-bandemig hyn ar gyfer gwella presenoldeb yn parhau'n ddilys, a bod angen eu hailsefydlu, eu haddasu a'u hymestyn lle bo angen yng ngoleuni'r profiad pandemig.

Dewiswyd ysgolion yr astudiaeth achos yn yr adolygiad hwn gan eu hawdurdod lleol fel rhai sy'n dangos arfer dda, yn nodweddiadol yn ystod y pandemig adeiladwyd ar eu harferion a oedd yn bodoli eisoes ar gyfer gwella presenoldeb. Roeddent eisoes wedi cydnabod pwysigrwydd sefydlu perthynas ymddiriedus gyda rhieni, teulu a'r gymuned leol yn gyffredinol. Roedd yn well ganddynt ddull a oedd yn gefnogol i deuluoedd yn hytrach na dibynnu ar ddulliau ffurfiol a chosb. Roeddent wedi gosod disgwyliadau uchel o ran presenoldeb gyda dysgwyr, teuluoedd a staff. Fe wnaethant nodi

problemau presenoldeb yn gynnwys a chawsant ymateb graddedig ac ystod o ymyriadau i helpu cefnogi dysgwyr a oedd yn absennol neu mewn perygl o fod yn absennol. Roeddent yn gweithio'n dda ac yn agos gyda gwasanaethau cymorth ac asiantaethau lleol. Bu eu profiad yn ystod y pandemig yn fodd i gadarnhau pwysigrwydd ymgysylltu â rhieni ac ymyrraeth gynnwys. Ymgynghorwyd yn eang ac effeithiol gyda theuluoedd ac addaswyd eu polisiau a'u dulliau gweithredu lle'r oedd angen (gweler Atodiad C am fanylion).

Arfer da wrth fynd i'r afael â phresenoldeb gwael

Nodwedd gref o arfer orau flaenorol oedd yr angen am ddull cyson, trwyadl ond graddedig o gymhwyso gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael â phresenoldeb gwael. Mae arfer da sylfaenol yn cynnwys cadw cofnodion a dadansoddi gofalus, nodi'n gynnwys, cysylltu'n brydlon â theuluoedd a'u cynnwys mewn trafodaethau, cynnig cymorth i helpu gydag unrhyw broblemau sylfaenol, a monitro presenoldeb yn agos yn barhaus. Fodd bynnag, teimlwyd bod gweithredu'r arfer presenoldeb da hwn wedi gwahau'n ddiweddar a'i fod yn llai cyffredin nag y bu cyn y pandemig, yn bennaf oherwydd cyfyngiadau capasiti staff o ganlyniad i effaith gronynnau galwadau llwyth gwaith cynyddol cyffredinol ac absenoldebau staff.

- * **Argymhelliad - Rhannu a lledaenu arfer gorau ar gyfer gwella presenoldeb, gan gynnwys y ffordd orau i ysgolion ymgysylltu â dysgwyr a'u teuluoedd, drwy addasu, ail-becynnu ac ailddosbarthu canllawiau perthnasol a'u hyrwyddo drwy ddatblygiad proffesiynol wedi'i dargedu**

Elfen allweddol o'r arfer gorau oedd y cymorth a gynigir i ddysgwyr a'u teuluoedd i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd ganddynt. Roedd hyn yn gofyn am weithio mewn partneriaeth ag ystod eang o wasanaethau, megis gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau ieuencid, rheoli ymddygiad, seicoleg addysg, cwnsela ac iechyd meddwl, y gwasanaeth iechyd gwladol, tai a'r heddlu, er enghraifft. Fodd bynnag, yn yr un modd â chapasiti athrawon, dywedwyd bod yr holl wasanaethau hyn hefyd ar hyn o bryd yn wynebu cyfyngiadau capasiti a oedd yn ei gwneud yn anodd mynd i'r afael â'r anghenion hyn mewn modd amserol.

Un o'r materion mwyaf dadleuol ynghylch arfer presenoldeb a godwyd eisoes yn ystod yr adolygiad oedd y defnydd o hysbysiadau cosb benodedig (HCB) a mynegwyd safbwyntiau gwahanol ar y mater hwn. Ar y naill law, teimlwyd bod hysbysiadau cosb benodedig, yn enwedig gan Swyddogion Lles Addysg a rhai ysgolion uwchradd, yn 'arf' pwysig a sefydledig ar gyfer perswadio teuluoedd i gymryd presenoldeb ysgol o ddifrif pan oedd dulliau eraill wedi methu. Ar y llaw arall, teimlwyd y byddai'n amhriodol defnyddio hysbysiadau cosb benodedig yn awr yn yr un ffordd â chyn y pandemig. Er gwaethaf y gwahaniaeth barn hyn, roedd tir cyffredin sylweddol hefyd. Roedd pawb yn cytuno bod lle ar gyfer gweithdrefnau ffurfiol mewn amgylchiadau eithafol (ac mae hyn yn dal yn bosibl yn gyfreithiol), fel rhan o ystod lawn o opsiynau. Roedd cytundeb y dylid defnyddio llythyrau ffurfiol fel rhybudd yn y lle cyntaf ac fel ffordd o annog teuluoedd i ymgysylltu â swyddogion mewn trafodaeth

adeiladol, ac ni awgrymodd neb y dylid defnyddio gweithdrefnau ffurfiol nes bod yr holl opsiynau eraill wedi'u harchwilio'n llawn.

Mae'n amlwg yn bwysig osgoi'r argraff o ansensitifrwydd yn ystod y cyfnod pandemig presennol a'i ganlyniadau (er enghraifft, ystyriwch y modd yr ymdriniwyd â thaliadau prydau ysgol mewn ysgol yng Ngogledd Cymru yn ddiweddar^{xxxiii}) ac mae'r agwedd sensitif hon hefyd yn un a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn gwledydd cartref eraill. Cynhaliwyd 'Gwerthusiad o Hysbysiadau Cosb Benodedig a roddwyd am golli'r ysgol yn rheolaidd' gan ICF Consulting ac Arad ar ran Llywodraeth Cymru yn 2018^{xxxiii} sy'n cynnwys adolygiad o lenyddiaeth ar yr arfer gorau ar gyfer gwella presenoldeb. Canfu'r adolygiad fod barn gymysg ymhlith ymatebwyr yr arolwg ar effeithiolrwydd hysbysiadau cosb benodedig gyda 56 y cant yn credu eu bod yn effeithiol ond 37 y cant yn credu nad ydynt. Hefyd, canfuwyd nad yw'r llenyddiaeth ymchwil yn darparu tystiolaeth gref bod sancsiynau ariannol eu hunain bob amser yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad oedolion mewn polisïau cymdeithasol. Gan fod marc cwestiwn o hyd ynghylch effeithiolrwydd hysbysiadau cosb benodedig o ran newid ymddygiad yn y tymor hir (dadleuir nad ydynt yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol o ran diffyg presenoldeb), mae'n werth ystyried gwneud rhagor o ymchwil i effeithiolrwydd hirdymor cosbau cyfnod penodol yng ngoleuni profiad y pandemig.

*** Argymhelliad - Adolygu a chynnal ymchwil bellach i'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig a'u heffaith ar batrymau presenoldeb dysgwyr**

Gwella profiadau dysgwyr

Roedd strategaeth fawr cyn y pandemig ar gyfer gwella presenoldeb yn seiliedig ar gydnabyddiaeth y bydd presenoldeb yn gwella os yw dysgwyr am ddod i'r ysgol ac os ydynt yn gweld yr hyn a gynigir yn ddifyr, yn ddiddorol ac yn berthnasol iddynt. Mae ysgolion a oedd wedi gwella presenoldeb yn llwyddiannus yn y gorffennol wedi rhoi sylw arbennig i'w harlwy cwricwlwm ac i wella addysgeg trwy ddatblygiad proffesiynol ac arfer wedi'i llywio gan ymchwil. Ar lefel genedlaethol, roedd y ddealltwriaeth hon yn rhan fawr o'r rhesymeg y tu ôl i ddiwygio'r cwricwlwm a datblygiad y Cwricwlwm newydd i Gymru. Roedd pawb yr ymgynghorwyd â nhw yn cydnabod pwysigrwydd parhaus diwygio'r cwricwlwm o'r fath a'r angen cysylltiedig am wella addysgeg. Hyd yn oed pan ddadleuodd ymgynghoreion o blaid 'dim mentrau newydd' fel y gallai staff ysgolion wneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion uniongyrchol ôl-bandemig dysgwyr, gwnaethant eithrio diwygio'r cwricwlwm o'r cais hwn. Roeddent yn gweld y Cwricwlwm newydd i Gymru, a'r pwyslais cryf y mae'n ei roi ar iechyd a lles, fel 'rhan o'r ateb' yn hytrach nag fel baich ychwanegol.

Roedd teimlad cyffredinol hefyd y dylai agweddau ar y diwygiadau ADY helpu i wella presenoldeb y dysgwyr hyn gan mai bwriad y diwygiadau yw gosod dysgwyr yng nghanol y broses o nodi anghenion a darpariaeth. Dylai cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn arwain at ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n bwysig i'r dysgwr a helpu i nodi materion cyn iddynt waethygu a dylai hefyd helpu gydag ymyrraeth gynnar. Dylai cyfleoedd datblygiad proffesiynol

estynedig^{xxxiv} hefyd godi ymwybyddiaeth staff o anghenion y dysgwyr hyn, er enghraifft mae adnoddau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag awtistiaeth ar gael ar wefan Awtistiaeth Cymru^{xxxv}. Yn ddiweddar, cyhoeddwyd cyllid ychwanegol ar gyfer cefnogi'r diwygiadau a dysgwyr ag ADY^{xxxvi}.

Cefnogi dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4: Cwricwlwm galwedigaethol a phontio i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO)

Mae'r angen i wneud y profiad dysgu yn werth chweil a pherthnasol yn arbennig o bwysig i ddysgwyr hyn yng nghyfnod allweddol 4 mae presenoldeb yn tueddu i fod yn waeth ac sy'n fwy tebygol o ymddieithrio. Roedd hyn yn wir cyn y pandemig, ond dywedir bod y mater wedi dod yn fwy amlwg ers hynny. Y consensws ynghylch ailennyn diddordeb y dysgwyr hyn, yn enwedig y rhai sy'n arbennig o 'anodd eu cyrraedd', yw sicrhau, unwaith y cysylltir â nhw a'u teuluoedd ac ymgysylltu â nhw, bod yn rhaid i'r profiad dysgu a gynigir fod yn bwrpasol i anghenion a dyheadau'r dysgwr, a dylai gynnwys opsiynau galwedigaethol diddorol a pherthnasol. Dylai'r llwybrau galwedigaethol hyn ar gyfer dysgu arwain at ddilyniant a datblygiad gyrfa gwerth chweil.

Roedd cynrychiolwyr ysgolion a cholegau o'r farn mai llwybrau galwedigaethol a chysiau rhagflas, a phrofiad gwaith, oedd y math o ddarpariaeth a fyddai'n ailennyn diddordeb grŵp sylweddol o ddysgwyr. Fodd bynnag, mae darpariaeth o'r fath, oherwydd ei natur ymarferol a thrwy brofiad, yn tueddu i fod yn ddrytach na darpariaeth draddodiadol ysgol yn yr ystafell ddosbarth. Dywedwyd bod argaeledd y trefniadau cwricwlwm hyn wedi gostwng ers i gyllid penodol ar gyfer y fenter llwybrau dysgu 14-19 ddod i ben tua 2015, ac mae'n cael ei ariannu ar hyn o bryd o gyllideb gyffredinol ysgol.

Datblygu ac ariannu cyfres o opsiynau galwedigaethol a ddeallir yn dda oedd un o'r prif awgrymiadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad adolygu i fynd i'r afael â heriau presenoldeb tymor byr ar gyfer y myfyrwyr cyfnod allweddol 4 sydd wedi ymddieithrio fwyaf, ond hefyd fel strategaeth hirdymor bwysig i gefnogi'r diwygiadau arfaethedig i'r cwricwlwm a'r diwygiadau cysylltiedig i arferion cymwysterau ac arholiadau. Dylai'r opsiynau cwricwlwm galwedigaethol hyn fod ar gael i ddisgyblion o bob dawn a gallu ond byddent yn debygol o apelio'n arbennig at y dysgwyr hynny y mae angen iddynt ail-ymgysylltu yn dilyn profiadau'r pandemig.

*** Argymhelliad - Archwilio adnoddau sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gwaith i gynyddu argaeledd llwybrau galwedigaethol a chysiau rhagflas, a phrofiad gwaith, ar gyfer myfyrwyr cyfnod allweddol 4**

Hefyd, mae grŵp posibl mwy o ddysgwyr nad yw eu presenoldeb o reidrwydd yn arbennig o wael, ond yr oedd eu cynnydd a'u cymhelliad wedi cael eu heffeithio yn andwyol. Er bod y dysgwyr hyn yn debygol o symud ymlaen i lefel nesaf y cyrsiau, efallai y byddant yn ei chael yn anodd eu cwblhau neu gyflawni cystal ag y gallent. Mae cynrychiolwyr colegau addysg bellach eisoes yn adrodd bod gan fwy o fyfyrwyr sy'n mynd i'r coleg ddiffygion sgiliau mewn sgiliau astudio sylfaenol fel rhifedd ac ysgrifennu traethodau er enghraifft. Un awgrym yw archwilio rhoi'r opsiwn i'r dysgwyr hyn gael mwy o amser i

gwblhau neu ailsefyll eu cyrsiau TGAU, galwedigaethol neu Safon Uwch. Byddai argaeledd yr opsiwn hwn yn lleihau'r pryder o fethiant a brofir gan y myfyrwyr hyn.

- * **Argymhelliad - Ymchwilio ymhellach i'r ddarpariaeth cyllid, hyblygrwydd ac amserlenni i fyfyrwyr ysgol, chweched dosbarth a choleg allu cwblhau eu cyrsiau cymhwyster**

Ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion cymunedol

Strategaeth allweddol a grybwyllwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac sy'n nodwedd gref yn yr ymchwil a'r llenyddiaeth arolygu, yw cyfathrebu, ymgysylltu a meithrin perthnasoedd cryf â theuluoedd dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda phob grŵp o ddysgwyr sy'n agored i niwed (dan anfantais ac yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ag anghenion dysgu ychwanegol, neu Saesneg fel iaith ychwanegol) ac mae'n sail ac yn cryfhau'r strategaethau eraill a grybwyllwyd eisoes.

Un ffordd y mae ysgolion llwyddiannus yn ymgysylltu'n well â theuluoedd yw trwy fabwysiadu dull 'ysgol gymunedol'. Disgrifiwyd nodau ysgol gymunedol fel a ganlyn:

- 'cryfhau ymgysylltiad teuluol a chymunedol
- ehangu'r defnydd o'u hasedau er budd y gymuned a wasanaethir gan yr ysgol
- darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trwy gyd-leoliad neu ddarpariaeth hybiau gwasanaeth o fewn y gymuned^{xxxvii}

Nodwedd bwysig o ysgolion cymunedol felly yw gwella ymgysylltiad teuluoedd, yn enwedig trwy gael eu gweld yn cefnogi lles dysgwyr, y ddau yn fewnol o fewn yr ysgol ond hefyd trwy hwyluso gwell mynediad i wasanaethau cefnogi allanol, a hefyd trwy gynnwys teuluoedd yn fwy ym mywyd yr ysgol. I'w helpu i wneud hyn, mae'r rhan fwyaf o ysgolion cymunedol yn cyflogi 'swyddogion ymgysylltu â theuluoedd' neu staff tebyg. Roedd hwn yn argymhelliad yn adroddiad diweddar Estyn i ysgolion 'Gyflogi staff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned i weithio gyda theuluoedd, y gymuned a phartneriaid ehangach.' Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw hefyd yn cefnogi ehangu'r model ysgolion cymunedol a'r defnydd o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd, a oedd yn ei weld mewn cyd-destun ehangach fel rhywbeth a oedd yn cyfrannu at yr agenda bolisi eang o leihau anghydraddoldebau addysgol. Byddwn yn trafod yn adran 6 sy'n cloi sut y gallai'r model ysgolion cymunedol hefyd fod yn sail ar gyfer gweledigaeth uno ar gyfer gwella ymgysylltiad dysgwyr yn y tymor hwy. Mae defnyddio staff 'bugeiliol' ychwanegol o'r fath hefyd yn nodwedd o arfer gorau yng Ngogledd Iwerddon lle cânt eu galw'n Swyddogion Cyswllt Teuluol, ac mewn academiâu yn Lloegr lle mae cynnig i gyflwyno Mentoriaid Presenoldeb ymhellach fel y'u gelwir yno^{xxxviii}.

- * **Argymhelliad - Ystyried y ffordd orau o gefnogi a darparu cyllid i alluogi pob ysgol i gyflogi staff ymgysylltu â theuluoedd i weithio gyda theuluoedd a phartneriaid ehangach**

Yn y tymor byr, dylid canolbwyntio ar ddarparu cyllid ychwanegol a fyddai'n sicrhau bod pob ysgol yn gallu ymgymryd â'r dasg allweddol o ymgysylltu â theuluoedd yn ystod y cyfnod anodd a phrysur hwn i ysgolion. Heb adnoddau ychwanegol, credai'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy y byddai gweithredu arfer gorau cytûn ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb yn parhau i gael ei gyfyngu gan faterion llwyth gwaith ac absenoldebau staff. Byddwn yn dychwelyd at yr heriau o ran llai o staff yn adran 5. Dylid cynnal ymchwil pellach hefyd ac ystyried y trefniadau gorau posibl ar gyfer cyflogi staff o'r fath mewn ysgolion, er enghraifft a yw swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn cael eu cyflogi orau gan ysgolion cynradd unigol neu eu defnyddio ar sail clwstwr.

Gwaith ieuencid a'r Fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid

Mae gwaith ieuencid yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi pobl ifanc^{xxxix}. Yn benodol, mae rhai gweithwyr ieuencid yn gweithredu fel gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc y nodir o dan y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid fel rhai sydd mewn perygl o beidio bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, neu sydd 'nid mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant', ('NEET'). Er enghraifft, efallai y byddant yn eu helpu nhw a'u teuluoedd i gael mynediad at rwydwaith o wasanaethau, mentrau a darpariaethau sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i beidio â bod yn NEET. Cyflwynwyd y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid^{xl} yn 2013 i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET ac mae canllawiau'r Fframwaith yn cael eu diweddarau ar hyn o bryd, fel rhan o waith atgyfnerthu cyffredinol ar y Fframwaith. Mae'r fframwaith yn darparu strwythur graddol defnyddiol i nodi pobl ifanc sydd angen cymorth, sefydlu pa gymorth sydd ar gael iddynt, a monitro eu cynnydd. Mae'r fframwaith yn egluro pa wasanaeth sy'n gyfrifol am gydgyssylltu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer pob cam.

- * **Argymhelliad - Ystyried sut y gellid defnyddio'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid yng nghyd-destun ysgolion cymunedol a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd cyffredinol**

Strategaethau ar gyfer mynd i'r afael ag absenoldeb sy'n gysylltiedig â COVID-19

COVID-19 fel salwch, hunanynysu ac absenoldeb dan gyfarwyddyd ysgol

Mae iechyd, diogelwch a lles dysgwyr a staff yn brif flaenoriaethau i bawb yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod yr adolygiad hwn. Mae llawer o'r llwyth gwaith ychwanegol presennol ar gyfer arweinwyr ysgol, staff addysgu a chymorth, ac ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog, yn gysylltiedig â dyfeisio a gweithredu mesurau i leihau trosglwyddo COVID-19 mewn ysgolion ac i gadw pawb yn ddiogel. Wrth i'r pandemig newid, mae cyngor ac arferion polisi yn cael eu hadolygu'n gyson i gwrdd ag amgylchiadau newydd. Mae datblygu ac esblygu dulliau newydd mewn partneriaeth ag ystod eang o randdeiliaid yn heriol ac yn cymryd llawer o amser. Mae cyfleoedd dulliau y

cytunwyd arnynt i ddysgwyr a'u teuluoedd hefyd yn cymryd amser ac ymdrech ychwanegol. Wrth i'r pandemig ddatblygu bydd y gwaith hwn yn parhau hyd eithaf gallu pawb ac yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Wrth wneud hyn mae'n hanfodol adeiladu ar y dull cydweithredol sydd wedi nodweddu'r ymdrech hon hyd yma. Mae gweithio mewn partneriaeth a chyfathrebu effeithiol yn allweddol i sicrhau bod y broses hon yn cael ei chyflawni mor effeithlon â phosibl.

Mae rheolau ar gyfer ynysu pan fydd dysgwr wedi bod mewn cysylltiad â rhywun â COVID-19 neu wedi profi'n bositif yn gymhleth ac wedi newid dros amser. Maent hefyd wedi cael eu dehongli ychydig yn wahanol mewn gwahanol awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae angen parhau i adolygu'r trefniadau hyn a'u cyfathrebu'n glir ac yn gyson i ddysgwyr, rhieni a theuluoedd. Byddai'n ddefnyddiol darparu templedi i awdurdodau lleol ac ysgolion i'w helpu i wneud hyn, pryd bynnag y caiff y rheolau eu newid.

*** Argymhelliad - Rhoi templedi i awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer cyfathrebu polisïau cenedlaethol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer hunanynysu**

Gorbryder, iechyd meddwl a materion lles

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu sawl rhaglen sy'n cynnwys ystod eang o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i helpu i ailennyn diddordeb dysgwyr, goresgyn ymdeimlad o unigedd, a gwneud y pontio o'r cyfyngiadau symud yn ôl i addysg yn haws, er enghraifft yr 'Haf o Hwyl'^{xli}. Gweler polisi Llywodraeth Cymru 'Adnewyddu a Diwygio' am grynodedb o'r mentrau hyn a ariennir^{xlii}.

Adroddodd y rhan fwyaf o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw gynnydd mewn problemau sy'n gysylltiedig â lles, iechyd meddwl ac ymddygiad dysgwyr pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol ar ôl y cyfnod cloi. Lle bo angen, maent yn trefnu ymyrraeth arbenigol gan asiantaethau cymorth megis CAMHS, cwnsela awdurdodau lleol neu dimau ymddygiad. Mewn rhai achosion, gall ysgolion hefyd drafod 'dychweliad graddol' i'r ysgol gyda dysgwyr a'u teuluoedd.

Fodd bynnag, eto roedd cytundeb cyffredinol nad oedd gan y gwasanaethau hyn y gallu i fynd i'r afael â'r lefelau cynyddol o alw yn y system ar hyn o bryd. Hyd yn oed lle dyrannwyd adnoddau ychwanegol i'r gwasanaethau hyn, dywedwyd ei bod wedi bod yn anodd iddynt recriwtio staff ychwanegol, gan fod angen sgiliau a chymwysterau arbenigol ar y staff hyn yn aml, a blynyddoedd o hyfforddiant. Nid oes unrhyw fecanweithiau amlwg (na data) ar gyfer darparu staff i 'gyflenwi' ar gyfer absenoldebau neu mewn ymateb i gynnydd yn y galw am y gwasanaethau hyn, er y gall awdurdodau lleol i ryw raddau ailstrwythuro eu gwasanaethau a symud staff i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf. Byddai'n ddefnyddiol, felly, fel rhan o gyd-destun eang y gwaith sy'n ymwneud â'r adolygiad hwn i Lywodraeth Cymru gynnal trafodaethau ag awdurdodau lleol am anghenion capasiti strategol eu gwasanaethau fel y'u hamlygwyd gan yr heriau o fodloni'r galw cynyddol presennol.

Pryderon sy'n gysylltiedig ag iechyd

Dywedir bod rhai absenoldebau dysgwyr a staff yn uniongyrchol gysylltiedig â phryderon ynghylch dal COVID-19 yn yr ysgol. Mae holl bolisiau ysgolion, awdurdodau lleol a'r llywodraeth wedi'u cynllunio i wneud ysgolion yn lleoedd diogel i fod ynddynt, ond mae tensiwn rhwng gwneud yn siŵr bod trefniadau gweithredu yn yr ysgol yn golygu eu bod yn lleihau trosglwyddiad y feirws ar y naill law a'r awydd ar y llaw arall i 'ddychwelyd i normal' ac osgoi trefniadau a allai gael effeithiau negyddol addysgol a lles eraill. Mae tensiynau hefyd rhwng cynnig sicrwydd bod popeth yn cael ei wneud i leihau trosglwyddo (a fyddai'n helpu'r rhai sy'n pryderu am ddychwelyd) a sicrhau bod yr ysgol yn rhedeg yn esmwyth (a fyddai'n tawelu meddwl y rhai sydd wedi cael llond bol ar yr anghyfleustra o drefniadau rhy gaeth). Yn ymarferol, cymharol gyfyngedig yw gallu ysgolion i symud o ran polisi ac arfer gan fod yn rhaid iddynt ddilyn y cyngor gwyddonol cyfredol. Cyfathrebu clir ac ymgysylltu cyson â'r rhai sy'n bryderus yw'r prif strategaethau a fabwysiadwyd, ac mae'r rhain hefyd yn cymryd amser ac egni ychwanegol.

Pryder sy'n gysylltiedig ag addysg

Mae prif ffynhonnell pryder arall i ddysgwyr yr adroddwyd amdani yn ymwneud â gwaith ysgol. Gall dysgwyr fod yn bryderus ynghylch methu ag ymdopi â gwaith ysgol mwyach, o fethu â 'dal i fyny', o bosibl oherwydd colli sgiliau neu wybodaeth (go iawn neu ddychmygol) yn ystod y cyfyngiadau symud. Yn y tymor byr, er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae ysgolion yn cynnig ystod o gymorth ychwanegol i ddysgwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer cyflogi staff ychwanegol i ddarparu'r cymorth hwn (y rhaglen Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS)^{xliii}) er bod tystiolaeth anecdotaidd y bu'n anodd cyflogi athrawon, cynorthwyyr athrawon neu diwtoriaid addas i wneud y gwaith hwn. Cafwyd gwerthusiad o effeithiolrwydd y rhaglen RRRS sydd i'w chyhoeddi yn haf 2022. Cyhoeddwyd adnoddau ychwanegol i gefnogi a darparu cyngor gyrfa i ddysgwyr blwyddyn arholiadau ac ar gyfer gwella presenoldeb yn benodol ym mis Rhagfyr 2021^{xliv}. Yn y tymor hwy, gwella'r profiad dysgu i ddisgyblion gan gynnwys ailedrych ar y cwricwlwm ac addysgeg i annog dysgwyr i fod eisiau mynychu'r ysgol yw'r strategaeth allweddol. Roedd cefnogaeth lawn yn ystod yr adolygiad i barhau â diwygiadau i'r cwricwlwm ac ADY, gan y credwyd y byddai'r diwygiadau hyn yn cefnogi ail ymgysylltu â dysgwyr.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ac athrawon ysgolion yn arbennig o bryderus am ddisgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a'r rhai yn y chweched dosbarth. Adroddir bod pryderon ynghylch dychwelyd i'r ysgol yn broblem benodol i rai dysgwyr yn y carfannau hyn a chredir ei fod yn ffactor pwysig wrth i'r carfannau hyn ymddieithrio o'r ysgol. Mewn rhai achosion mae'r pryder hwn oherwydd ofn gofynion cymwysterau (arholiadau neu waith cwrs). Er mwyn mynd i'r afael â'r pryder hwn, mae deunyddiau dysgu modiwlaidd helaeth i gefnogi adolygu arholiadau ar gael ar HWB ac yn arbennig ar wefan CBAC. Mynegwyd peth pryder yn ystod yr ymgynghoriad nad oedd yn hawdd dod o hyd i'r deunyddiau hyn a'r bwriad bellach yw rhesymoli a threfnu'n well a chyfeirio'r deunyddiau hyn yn fuan.

*** Argymhelliad - Sicrhau bod cynlluniau ar gyfer rhesymoli a chyfeirio deunyddiau adolygu TGAU ar wefan CBAC yn cael eu gweithredu**

Er bod penderfyniad wedi'i wneud a'i gyfathrebu'n glir y bydd arholiadau yn ystod haf 2022, yn ymarferol erys ansicrwydd canfyddedig ynghylch y trefniadau ymhlith athrawon. Yn gwbl briodol, mae trefniadau wrth gefn sy'n ymwneud â graddau a bennir gan y ganolfan (CDGs) hefyd wedi'u gwneud rhag ofn y bydd yn rhaid canslo arholiadau am resymau iechyd a diogelwch, megis cynnydd sylweddol yn y firws yn ystod haf 2022. Adroddwyd o ganlyniad i'r ansicrwydd anfwriadol hwn, roedd ysgolion yn paratoi dysgwyr ar gyfer y ddau bosibilrwydd, hynny yw ar gyfer arholiadau (er enghraifft trefnu ffug arholiadau) ac ar gyfer CDG (er enghraifft sicrhau marcio manwl gwaith cwrs). Effaith hyn yw cynyddu'r pwysau ar ddysgwyr ac athrawon.

Mae llawer o weithwyr addysgu proffesiynol a sylwebwyr addysgol yn gobeithio y bydd dull mwy cytbwys ac amrywiol o asesu, yn y tymor byr a'r tymor hir, sy'n cynnwys asesiadau athrawon ac arholiadau, gan gydnabod yn benodol bod yn well gan ddysgwyr wahanol fathau o asesiadau. Eisoed mae amrywiaeth o safbwyntiau am arholiadau 2022, gyda rhai yn cael eu cefnogi ac eraill yn ffafrio mwy o asesu gan athrawon. Mae profiad 2021 yn amlygu bod y broses CDG yn cyflwyno ystod o wahanol anghydraddoldebau (e.e. cynyddu'r bwlch cyrhaeddiad, amrywiadau ar draws canolfannau, rhwng ysgolion a cholegau, ac yn y blaen), a chreu baich ychwanegol ar athrawon ar adeg pan ddylai'r ffocws fod ar gefnogi eu dysgwyr. Mae Cymwysterau Cymru am gyflwyno mwy o fathau o asesu yn y cymwysterau newydd sy'n cael eu datblygu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Dysgu cyfunol

Er gwaethaf effaith negyddol gyffredinol y pandemig ar lawer o ddysgwyr, mae dysgu gartref a dysgu o bell wedi bod yn llwyddiannus i rai grwpiau o ddisgyblion, yn enwedig y rhai sydd â thueddiad i ddysgu o bell ac yn ddigidol, ac sydd â'r adnoddau a'r cymorth cartref. Hefyd, mae dysgu cyfunol yn fodd priodol i fyfyrwyr barhau i ddysgu yn ystod salwch neu ddychwelyd yn raddol i'r ysgol waeth beth fo'r pandemig, er bod y posibilrwydd hwn wedi dod yn opsiwn mwy ymarferol yn dilyn y profiad a gafwyd o reoli dysgu cyfunol yn ystod y cyfyngiadau symud.

Roedd llawer o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw am fynd â'r ffordd hon o feddwl ymhellach, ac er eu bod yn credu mai'r ysgol oedd y lle gorau i ddysgwyr fod er mwyn dysgu a bod yn iach ac yn ddiogel, roeddent hefyd yn cydnabod y byddai rhai dysgwyr (hŷn yn bennaf) y byddai'n briodol i ysgolion ddod o hyd i ffordd iddynt ddysgu trwy ddull dysgu cyfunol wedi'i reoli. Er enghraifft, ar gais a thrwy drafod a chytundeb gan yr ysgol, gallai dysgwr fynychu'r ysgol am ran o'r wythnos, lle gallent drafod cynnydd wyneb yn wyneb ag athro a chael gwaith pellach wedi'i osod, mynychu nifer penodol o wersi a sesiynau ymarferol, ac yn elwa o sesiynau lles a bugeiliol ac o gymdeithasu'n gyffredinol â chyfoedion, ond byddai'r dysgwr hefyd yn gweithio'n ddigidol o gartref. Teimlwyd y dylai dysgwyr hŷn yn arbennig gael mwy o lais wrth benderfynu pryd, ble a sut i ddysgu, er bod lleiafswm o gyswllt wyneb yn wyneb yn cael ei ystyried yn hanfodol, nid lleiaf am resymau diogelu.

*** Archwilio'r angen am ddull strategol o addysgu a dysgu digidol i fynd i'r afael ag anghenion y rheini nad ydynt neu na allant fod yn bresennol mewn ysgolion**

Gan fod gan lawer o athrawon bellach y sgiliau sydd eu hangen i drefnu dysgu cyfunol, y rhwystr i'r dull hwn fyddai goblygiadau adnoddau a llwyth gwaith. Rhwystr arall yw nad yw astudiaeth gartref o'r fath yn aml yn cael ei chofnodi fel presenoldeb yn yr ysgol, ond fel absenoldeb awdurdodedig, (er y gellid defnyddio cod presenoldeb B yn y cyd-destun hwn o bosibl). Awgrymir felly y dylid cynnal adolygiad o bolisi presenoldeb a'r defnydd o godau cofrestru, fel y'u cynhwysir yn Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan^{xlv}, yn y cyd-destun hwn, a thrwy ystyried y dirwedd polisi presenoldeb esblygol yn y gwledydd cartref a chanfyddiadau'r llenyddiaeth ymchwil (gweler Atodiad D). Er enghraifft, caiff dysgu cyfunol y cytunwyd arno ei godio fel presennol yng Ngogledd Iwerddon ac mae newidiadau tebyg wedi'u cynnig ond heb eu cytuno yn Lloegr (mae'r fframweithiau deddfwriaethol ar gyfer presenoldeb yng Nghymru a Lloegr yn gyfochrog ac yn fwy rhagnodol nag ar gyfer gwledydd eraill y Deyrnas Unedig). Byddai newid o'r fath mewn codio hefyd yn golygu y byddai cofnodion presenoldeb a dadansoddiadau yn fwy ystyrllon yn ystod cyfnodau clo ysgolion.

*** Argymhelliad - Ystyried y ffordd orau o addasu polisi a chofnodion presenoldeb i'w defnyddio gyda dysgu cyfunol**

Yn gyffredinol, ystyriwyd bod dysgu digidol yn fwy llwyddiannus yn ystod ail gyfnod clo'r ysgolion na'r cyntaf. Ceir ymchwil a ganfu fod dysgwyr mwy breintiedig a'u teuluoedd wedi sefydlu arferion mwy effeithiol erbyn yr ail gloi, ond nad oedd dysgwyr difreintiedig wedi gwneud hynny, gan ehangu'r bwlch o ran effeithiau dysgu o bell. Mae ymchwil arall yn nodi bod yna ddysgwyr o hyd heb unrhyw fynediad i ddyfeisiau, dim rhyngwrwyd a dim gofod cartref i astudio.

Erbyn yr ail gloi, roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu trefniadau dysgu digidol effeithiol. Mae'r graddau y mae elfennau o ddysgu cyfunol wedi parhau ar ôl dychwelyd i addysg ar y safle yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion^{xlvi}. Mae ysgolion yn deall bod parhau â dysgu cyfunol yn helpu i gefnogi dysgwyr sy'n absennol o'r ysgol am ba bynnag reswm. Fodd bynnag, er bod mwyafrif y dysgwyr yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi'i chael yn anodd i athrawon addysgu ystafelloedd dosbarth llawn a hefyd baratoi gwersi digidol a deunyddiau ar gyfer dysgu o bell ar gyfer lleiafrif o ddysgwyr.

Mewn lleiafrif o achosion, mae gwersi'n cael eu cofnodi fel mater o drefn a gellir eu defnyddio wedyn gan ddysgwyr absennol neu ar gyfer adolygu, er bod y dull hwn yn dal i ofyn am amser gan athrawon i drafod a gosod gwaith ar gyfer y dysgwyr absennol. Yr ysgolion sydd fwyaf cyfarwydd â defnyddio dysgu digidol a chyfunol yw'r rhai sydd â phrofiad blaenorol o ddefnyddio deunyddiau digidol ar HWB ac e-sgol^{xlvii} er enghraifft, neu sydd â hanes o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer staff ar ddefnyddio technoleg ddigidol. Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw o'r farn y byddai'n ddefnyddiol sefydlu 'ysgol ddigidol genedlaethol i Gymru' neu drefniant tebyg a fyddai'n cynnwys adnoddau y gallai pob ysgol a dysgwr eu defnyddio fel y bo'n briodol.

- * **Argymhelliad - Fel rhan o ddatblygiad ehangach polisi digidol a dysgu cyfunol strategol, archwilio sefydlu ystorfa genedlaethol o ddeunyddiau addysgu a dysgu ar gyfer pob blwyddyn ysgol cyn gynted â phosibl**

Pwysau llwyth gwaith a chapasiti staffio

Mae'r awgrymiadau a wnaed uchod ar sut gall gwasanaethau cymorth ysgolion ac awdurdodau lleol helpu dysgwyr i ail-ymgysylltu ag addysg a gwella eu presenoldeb (trwy helpu disgyblion i wneud cynnydd academiaidd yn ogystal â mynd i'r afael â'u materion lles ac iechyd meddwl) i gyd yn cynnwys mewnbwn amser ac ymdrech staff, yn enwedig os ydynt am gael eu gweithredu'n drylwyr ac yn llawn. Maent felly yn gyfystyr â chynnydd mewn llwyth gwaith i staff. Fodd bynnag, adroddwyd yn gyson bod ymgymryd â'r llwyth gwaith ychwanegol hwn wedi bod yn arbennig o anodd yn ystod y cyfnod hwn oherwydd effaith absenoldebau staff, sydd wedi arwain at gapasiti staff cyfyngedig ar gyfer ysgolion yn ogystal ag ar gyfer gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol. Yn ogystal ag absenoldebau parhaus athrawon a staff (yn aml oherwydd dal COVID-19 neu angen hunanynysu), anhawster arall fu dod o hyd i ddigon o staff cyflenwi i ddarparu ar gyfer y lefel uwch o absenoldebau.

Nid yw union raddau absenoldeb athrawon yn hysbys, ond credir yn gyffredinol ei fod wedi cynyddu o gymharu â lefelau cyn-COVID-19 ar ôl dychwelyd cyffredinol i'r ysgol ar ôl y cyfnod cloi. Mae'r rhesymau a roddir am y cynnydd hwn mewn absenoldeb athrawon yn debyg i lawer o'r rhesymau dros absenoldeb dysgwyr ac maent yn cynnwys salwch o COVID-19 ei hun, COVID-19 hir, hunanynysu, materion yn ymwneud â COVID-19 gyda'u plant neu berthnasau dibynnol eraill, pryder ynghylch dal COVID-19 yn ysgol, a materion iechyd meddwl amrywiol. Cyfeiriwyd at achosion o athrawon heb eu brechu nad oeddent yn mynychu'r ysgol yn ystod achosion o COVID-19, er nad oedd yn ymddangos bod hyn yn broblem eang.

Mae effaith mwy o absenoldebau athrawon yn driphlyg. Yn gyntaf, mae'n cael effaith negyddol ar gynnydd dysgwyr gan fod y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol yn cael eu haddysgu gan bobl nad ydynt yn arbenigwyr neu gan athrawon cyflenwi nad ydynt yn eu hadnabod. Yn ail, gall absenoldebau athrawon rheolaidd a'r newidiadau arferol sy'n deillio o hynny hefyd ddigalonni neu ddad-ysgogi dysgwyr. Ac yn drydydd, mae trefnu staff cyflenwi yn cynyddu ymhellach y beichiau gweinyddol ar uwch dimau rheoli ac y gallai fod yn rhaid iddynt ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith cyflenwi eu hunain.

Mae ysgolion wedi ei chael yn arbennig o anodd trefnu staff cyflenwi ar gyfer athrawon absennol mewn rhai pynciau fel Gwyddoniaeth, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu wledig. Roedd penodi athrawon yn y meysydd arbenigol hyn yn heriol cyn COVID-19, ond dywedir ei fod yn anoddach fyth nawr. Adroddwyd bod yr heriau hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng ysgolion ar draws y wlad. Teimlwyd bod yr her llwyth gwaith yn arbennig o ddifrifol ar gyfer ysgolion llai.

Roedd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn gwerthfawrogi ac yn cymeradwyo'n fawr y cynllun ar gyfer cyflogi athrawon newydd gymhwyso (ANG) nad ydynt wedi sicrhau cyflogaeth barhaol ar leoliadau cyflogedig. Mae'r cynllun hwn wedi'i ymestyn o dymor yr hydref i gynnwys tymor y gwanwyn. Credwyd y byddai'n fuddiol ymestyn y cynllun hwn ymhellach i dymor yr haf ac i'r flwyddyn academiaidd nesaf ar gyfer y garfan nesaf o athrawon newydd

gymhwyso (hynny yw ar gyfer y rhai sy'n hyfforddi eleni). Rhoddir dwy sail resymegol dros yr awgrym hwn. Yn gyntaf, amharwyd ar addysg gychwynnol athrawon dan hyfforddiant sy'n hyfforddi ar hyn o bryd a byddent yn elwa o brofiad a chymorth ychwanegol yn eu blwyddyn sefydlu, os na fyddant yn sicrhau cyflogaeth lawn (dyma oedd y rhesymeg wreiddiol ar gyfer cynllun presennol y garfan bresennol o ANG). Yn ail, byddai ymestyn y cynllun hefyd yn helpu ysgolion gyda'u heriau capasiti parhaus sy'n debygol o barhau i'r flwyddyn academaidd nesaf (er nad oedd hyn yn rhan o'r rhesymeg wreiddiol ar gyfer y cynllun).

*** Argymhelliad - Ystyried ymestyn y cynllun ar gyfer cyflogi ANG nad ydynt wedi sicrhau cyflogaeth barhaol i gynnwys y garfan nesaf**

Dywedodd uwch reolwyr ysgolion fod recriwtio athrawon, a chynorthwywyr addysgu, i swyddi yn arbennig o anodd ar hyn o bryd. I leddfu'r sefyllfa hon, awgrymwyd y byddai ysgolion yn croesawu mwy o hyblygrwydd mewn llwybrau seiliedig ar gyflogaeth i statws athro cymwysedig gan gynnwys annog ystod ehangach o ddarparwyr (mae un darparwr ar hyn o bryd, sef y Brifysgol Agored, ac nid yw'r bartneriaeth achrededig arall sydd wedi'i lleoli mewn Prifysgolion yng Nghymru yn cynnig llwybrau seiliedig ar gyflogaeth, er bod ysgolion yn ymwneud â nhw ar gyfer llwybrau eraill) ac ystod ehangach o arbenigeddau pwnc a ganiateir (wedi'i gyfyngu i feysydd lle mae prinder ar hyn o bryd). Teimlai ymgynghoreion y byddai hyn yn helpu lliniaru'r heriau presennol o ran capasiti, er i swyddogion polisi rybuddio bod comisiynu cyrsiau newydd yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser o dan y trefniadau achredu presennol.

*** Argymhelliad - Archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno mwy o hyblygrwydd a mwy o ddarparwyr i lwybrau seiliedig ar gyflogaeth a rhan-amser i hyfforddiant cychwynnol athrawon**

Adroddir heriau penodol ar gyfer dod o hyd i staff cyflenwi ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae'n ymddangos mai'r prif reswm am yr anhawster i ddod o hyd i athrawon cyflenwi yw'r cynnydd serth yn y galw. Ar hyn o bryd, mae tua 4,200 o athrawon cyflenwi wedi'u cofrestru gan EWC^{xlvi} a rhyw 40 o asiantaethau preifat ac mae gan rai awdurdodau lleol eu cynlluniau eu hunain o hyd. Mae tua 25 o'r asiantaethau wedi ymuno'n wirfoddol â fframwaith NPS Llywodraeth Cymru sy'n gwarantu gwell cyflog, telerau ac amodau i athrawon cyflenwi. Mae cytundeb cydweithredu a gyhoeddwyd yn ddiweddar rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cynnwys ymrwymiad i gael gwared ar ymagwedd y farchnad at y system athrawon cyflenwi^{xlix} er i swyddogion polisi dynnu sylw at anawsterau wrth gyflawni hyn gan fod gan asiantaethau fel darparwyr ac ysgolion fel defnyddwyr wedi sefydlu hawliau a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol.

At ei gilydd, nid oedd yr arweinwyr ysgol yr ymgynghorwyd â nhw yn gweld ffordd hawdd o fynd i'r afael â'r her cyflenwad athrawon tymor byr presennol ond yn hytrach yn gweld yr ateb i broblem capasiti'r system o ran cynyddu capasiti gwasanaethau cymorth (fel gwasanaethau cymdeithasol, ieuencid, gyrfaedd, cwnsela, lles addysg neu wasanaethau tebyg), fel y gallai'r gwasanaethau hyn gefnogi ymdrechion ysgolion yn well i ailennyn diddordeb

dysgwyr mewn addysg neu hyfforddiant. Fodd bynnag, fel y crybwyllwyd yn gynharach, mae gan y gwasanaethau cymorth hyn eu heriau eu hunain o ran capasiti, am resymau tebyg i'r mater o gyflenwad ysgolion ac athrawon. Yn fras, maen nhw hefyd wedi cynyddu llwyth gwaith, ansicrwydd parhaus oherwydd gostyngiadau yn y gweithlu sy'n gysylltiedig â COVID-19, ac yn gyffredinol dim mecanweithiau cyflym ar gyfer cynyddu'r cyflenwad o weithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n addas. Er enghraifft, clywsom fod capasiti'r gwasanaeth ieuencid 'o dan bwysau'.

Er gwaethaf y pryderon difrifol hyn am gapasiti'r system, roedd y rhan fwyaf o'r gweithwyr proffesiynol yr ymgynghorwyd â nhw o'r farn mai nawr yw'r amser i ail-werthuso arferion y gorffennol a chyflwyno arferion newydd neu gyflymu'r broses o'u cyflwyno, yn hytrach na dychwelyd i ffyrdd blaenorol o weithio nad oeddent o bosibl wedi bod y gorau neu sydd bellach wedi'u goddiweddyd oherwydd y newid mewn amgylchiadau yn dilyn y pandemig. Roedd llawer o'r farn y dylem adeiladu ar y llwyddiannau hyn mewn ffordd strategol, tra hefyd yn gwneud cymaint â phosibl i liniaru'r materion mwyaf dybryd o ran capasiti a llwyth gwaith.

Mae gan weithgor Rheoli Llwyth Gwaith a Lleihau Biwrocratiaeth Llywodraeth Cymru amrywiaeth eang o gynrychiolaeth ac mae wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd yn ystod cyfnod y pandemig. Mae'r gweithgor wedi nodi tua 15 o bwyntiau gweithredu fel rhan o'i waith yn datblygu siarter llwyth gwaith. Mae rhai o'r camau gweithredu hyn yn ymwneud â phandemig COVID-19 ac maent yn unol â chanfyddiadau'r adolygiad hwn, er bod y rhan fwyaf o'r materion yr eir i'r afael â hwy yn bryderon parhaus a oedd yn bodoli cyn y pandemig, gan gynnwys materion megis pwysigrwydd osgoi dyblygu wrth gasglu data ac arolygon athrawon lluosog.

I grynhoi, mae heriau o ran capasiti staffio ar lefelau athrawon, cynorthwyywyr athrawon a staff cymorth awdurdodau lleol. Mae angen mwy o athrawon cymwys i gyflenwi ar gyfer athrawon absennol ac i staffio amrywiol fentrau 'dal i fyny' ar gyfer tiwtora dysgwyr. Mae angen mwy o gynorthwyywyr addysgu i gefnogi'r ystod eang o fentrau lles, iechyd meddwl ac ymgysylltu â theuluoedd yr hoffai ysgolion eu cyflawni. Mae angen mwy o staff cymorth awdurdodau lleol i helpu ysgolion i fynd i'r afael ag ôl-groniad o faterion lles ac iechyd meddwl dysgwyr aciwt a pharhaus. Mae'r heriau capasiti yn rhyng-gysylltiedig, felly byddai gweithredu i fynd i'r afael â phrinder ar gyfer un categori yn lleddfu'r pwysau ar y lleill. Mae angen cymwysterau arbenigol ar athrawon a staff cymorth a phrin yw'r atebion cyflym i fynd i'r afael â'r cyfyngiadau capasiti hyn, er ein bod yn awgrymu y gallai fod yn ddefnyddiol ymestyn y fenter o ddefnyddio athrawon newydd gymhwyso di-waith. Mae'n ymddangos mai ariannu cyflogaeth mwy o gynorthwyywyr dysgu, yn enwedig i wneud gwaith ymgysylltu â theuluoedd, yw'r awgrym mwyaf ymarferol ar gyfer y tymor byr.

Casgliadau ac argymhellion

Nid oes fawr o amheuaeth ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â nhw fod y system addysg yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys ysgolion, gwasanaethau cymorth awdurdodau lleol a llywodraeth ganolog, yn gweithio'n galed i wella presenoldeb drwy fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol dros absenoldeb, y rhai sy'n newydd i COVID-19 a'r rhai oedd yn bodoli o'r blaen ond wedi cael eu gwaethygu gan y pandemig. Dyma oedd canfyddiad yr arolygiaeth hefyd¹. Mae llawer o ewyllys da, gwell cydweithrediad a pherthnasoedd rhyngasiantaethol, a chyllid ac arweiniad ychwanegol.

Nid yw'r adolygiad wedi dod o hyd i unrhyw fylchau mawr ar lefel polisi strategol, ac mae'n ymddangos felly mai'r prif atebion i wella presenoldeb yw ailsefydlu, ymestyn a chydgyssylltu'r arfer gorau a pholisïau presennol yn well. Mae rhai addasiadau i bolisi ar lefel weithredol wedi'u hawgrymu fel y nodwyd gan yr argymhellion a wnaed drwy gydol yr adroddiad.

Serch hynny, mae'r problemau llwyth gwaith ychwanegol a heriau capasiti a nodir yn yr adroddiad hwn yn golygu nad oes unrhyw atebion hawdd na chyflym i wella presenoldeb. Felly, mynd i'r afael â phwysau llwyth gwaith a chynyddu capasiti staff yw'r brif thema sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad. Gan fod hyn yn berthnasol i wasanaethau cymorth yn ogystal ag i ysgolion, mae mynd i'r afael â'r pryder canolog hwn hefyd yn gofyn am drafodaeth ag awdurdodau lleol ar eu hanghenion o ran capasiti strategol a'u gwasanaethau. Mae mynd i'r afael â'r materion llwyth gwaith a chapasiti staff yn gofyn am ddull strategol, gweithio mewn partneriaeth fwy effeithlon rhwng gwasanaethau ac asiantaethau, cyfathrebu effeithiol, a datblygiad proffesiynol mwy a rhannu arfer gorau.

Daeth themâu cyffredin ynghylch pa strategaethau a fyddai'n helpu'r system i weithio'n fwy cydlynol i'r amlwg o'r adolygiad. Pwysleisiwyd yn gyson bwysigrwydd dilyn yr egwyddorion strategol hyn gan ystod eang o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Mae'r rhan fwyaf o'r themâu cyffredin hyn yn cynrychioli parhad neu ddatblygiadau naturiol y polisi presennol, gan gynnwys parhau â'r agendâu diwygio'r cwricwlwm ac ADY cyfredol, defnyddio dull system gyfan, canolbwyntio ar les dysgwyr a staff, gyda ffocws penodol ar gymryd agwedd sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dysgwr neu ymagwedd bersonol at ddysgu, gan gynnwys cyflwyno mwy o gyfleoedd dysgu 'cyfunol' neu ddysgu o bell, yn enwedig i ddysgwyr hŷn lle bo'n briodol. Mae cyflwyno a datblygu'r ffyrdd amrywiol hyn o gydweithio yn cynrychioli datblygu diwylliant addysgol ar hyd cyfeiriad y cytunwyd arno'n fras cyn ac yn ystod y pandemig.

Yn ogystal, mae'r adroddiad hwn yn awgrymu bod gan ymgysylltu â theuluoedd, a dull 'ysgol gymunedol' o gyflawni'r ymgysylltu hwn, y potensial i ddod yn bolisi uno pwysig ac yn rhan allweddol o weledigaeth hirdymor ar gyfer mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tanberfformiad addysgol sydd wedi cael ei waethygu gan y pandemig. Mae'r ffocws cymunedol hwn ar gyfer ysgolion yn mynd i'r afael yn benodol â'r cydgysylltu a'r gwaith partneriaeth rhwng gwasanaethau ac asiantaethau ar lefel leol. Yn yr achosion gorau, mae ysgolion o'r fath yn adnabod eu dysgwyr a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a all helpu i drefnu'r cymorth

sydd ar gael, a sicrhau bod gwybodaeth leol am anghenion dysgwyr penodol yn cael ei bodloni.

I gloi, canfu'r adolygiad fod consensws cynyddol ymhlith dysgwyr, ymarferwyr addysgol a llunwyr polisi ynghylch y rhesymau sylfaenol pwysicaf dros absenoldeb dysgwyr, er bod mwy i'w ddysgu drwy waith ymchwil a dadansoddi pellach am y ddealltwriaeth hon a'r arfer sy'n deillio ohono. Mae'r rhesymau dros absenoldeb yn gymhleth ac yn amlochrog fel y trafodwyd yn yr adolygiad hwn, ond credir bod yr achosion mwyaf sylfaenol yn ymwneud â lles ac iechyd meddwl dysgwyr, a'u hagwedd at ddysgu ac at yr ysgol (cysyniad a ddisgrifir yn amrywiol yn y llenyddiaeth fel ymgysylltiad neu gysylltedd ysgol). Yn ymarferol, y ffyrdd y mae ysgolion yn ceisio gwella'r cysylltedd hwn yw trwy feithrin perthnasoedd o ymddiriedaeth, drwy ymgysylltu a chyfathrebu, ymgynghori'n weithredol, ceisio adborth a gweithredu arno, darparu cyfleoedd dysgu ymatebol a pherthnasol, ac yn hollbwysig, deall a cheisio helpu teuluoedd i oresgyn y rhwystrau economaidd-gymdeithasol a rhwystrau eraill i ddysgu, trwy weithio mewn cysylltiad ag ystod o wasanaethau ac asiantaethau cymorth allanol. Mae gwella ymgysylltiad ag ysgolion yn gofyn am ddull personol, empathig a hyblyg sydd wedi'i deilwra i bob dysgwr a theulu ac sy'n cydnabod eu hamgylchiadau unigol. Mae'r grŵp hwn o ddealltwriaethau a gweithgareddau yn aml yn cael ei nodweddu fel dull ysgol gymunedol, sy'n gweld gwella presenoldeb nid ar ei ben ei hun ond fel rhan o strategaeth ehangach ar gyfer helpu dysgwyr i gyflawni eu gorau. Er ei fod yn bodoli cyn COVID-19, mae profiadau'r pandemig wedi cryfhau'r grŵp hwn o gredoau. O ran polisi, mae'n ymddangos yn synhwyrol adeiladu ar y ddealltwriaeth gynyddol hon sy'n cydfynd yn fras â chyfeiriad polisi cyfredol a chanfyddiadau llenyddiaeth.

Crynodeb o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru

Ymgysylltu â theuluoedd ac ysgolion cymunedol

- * Ystyried y ffordd orau o gefnogi a darparu cyllid i alluogi pob ysgol i gyflogi staff ymgysylltu â theuluoedd i weithio gyda theuluoedd a phartneriaid ehangach
- * Ystyried sut y gellid defnyddio'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuenctid yng nghyd-destun ysgolion cymunedol a swyddogion ymgysylltu â theuluoedd cyffredinol

Cefnogi dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4

- * Ymchwilio i sefydliadau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant yn y gwaith sy'n darparu adnoddau i gynyddu argaeledd llwybrau galwedigaethol a chysiau rhagflas, a phrofiad gwaith, ar gyfer myfyrwyr cyfnod allweddol 4
- * Archwilio ymhellach y ddarpariaeth cyllid, hyblygrwydd ac amserlenni i fyfyrwyr ysgol, chweched dosbarth a choleg allu cwblhau eu cyrsiau cymhwyster
- * Sicrhau bod cynlluniau ar gyfer rhesymoli a chyfeirio deunyddiau adolygu TGAU ar wefan CBAC yn cael eu gweithredu

Dysgu cyfunol

- * Archwilio'r angen am ddull strategol o addysgu a dysgu digidol i fynd i'r afael ag anghenion y rheini nad ydynt neu na allant fod yn bresennol mewn ysgolion
- * Fel rhan o ddatblygiad ehangach polisi digidol a dysgu cyfunol strategol, archwilio sefydlu ystorfa genedlaethol o ddeunyddiau addysgu a dysgu ar gyfer pob blwyddyn ysgol cyn gynted â phosibl
- * Ystyried y ffordd orau o addasu polisi a chofnodion presenoldeb i'w defnyddio gyda dysgu cyfunol

Llwyth gwaith a staffio

- * Ystyried ymestyn y cynllun ar gyfer cyflogi ANG nad ydynt wedi sicrhau cyflogaeth barhaol i gynnwys y garfan nesaf
- * Archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno mwy o hyblygrwydd a mwy o ddarparwyr i lwybrau seiliedig ar gyflogaeth a rhan-amser i hyfforddiant cychwynnol athrawon

Cyfathrebu a rhannu arfer orau

- * Rhannu a lledaenu arfer gorau ar gyfer gwella presenoldeb, gan gynnwys y ffordd orau i ysgolion ymgysylltu â dysgwyr a'u teuluoedd, drwy addasu, ail-becynnu ac ailddosbarthu canllawiau perthnasol a'u hyrwyddo drwy ddatblygiad proffesiynol wedi'i dargedu
- * Rhoi templedi i awdurdodau lleol ac ysgolion ar gyfer cyfathrebu polisïau cenedlaethol gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â threfniadau ar gyfer hunanynysu

Data ac ymchwil

- * Cynnal ymchwil pellach i batrymau presenoldeb a fyddai'n helpu nodi dysgwyr a allai fod mewn perygl o gael eu gwahardd
- * Trafod diffinio, cofnodi a dadansoddi data presenoldeb gyda gwledydd tebyg er mwyn dysgu o'r arfer diweddaraf ac ystyried sut y gellir hwyluso ymhellach gymharu data a pholisi
- * Adolygu'r diffiniad o absenoldeb parhaus a'r pwyntiau sbarduno cysylltiedig ar gyfer ymyriadau
- * Ystyried y ffordd orau o gasglu, dadansoddi a chyhoeddi presenoldeb staff addysg yn fwy manwl
- * Archwilio datblygu a chyhoeddi set o fetrigau ar gyfer profiad dysgwyr sy'n cynnwys data ar absenoldeb athrawon, y defnydd o staff cyflenwi, ac argaeledd arbenigwyr pwnc er enghraifft
- * Adolygu a chynnal ymchwil bellach i'r defnydd o hysbysiadau cosb benodedig a'u heffaith ar batrymau presenoldeb dysgwyr

Atodiadau

Cylch gorchwyl

1. Dadansoddi a dehongli data ffynonellau ar gyfraddau presenoldeb/diffyg presenoldeb presennol yn ysgolion Cymru.
2. Cysylltu â sefydliadau ac unigolion allweddol o fewn y system addysg a chasglu gwybodaeth am y sefyllfa sy'n dod i'r amlwg a pha fesurau/ymyriadau sydd eu hangen i ailgysylltu dysgwyr yn well i'w hatal rhag dod yn NEET yn y dyfodol.
3. Y sefydliadau/unigolion i gynnwys Awdurdodau Lleol/Consortia Addysg Rhanbarthol/Estyn/ NAEL/ y Sector Addysg Bellach/Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith, y Gwasanaeth Ieuencid, y Gwasanaeth Gyrfaoedd a Rhwydwaith Ymchwil Cydweithredol Addysg Uwch Ecwiti a Chynhwysiant.
4. Cynnal grwpiau ffocws gyda dysgwyr.
5. Cynnal rhai 'ymchwiliadau dwfn' mewn un ardal awdurdod lleol ym mhob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru i gasglu gwybodaeth gan benaethiaid, Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a Swyddogion Lles Addysg.
6. Ystyried tystiolaeth y Deyrnas Unedig/rhyngwladol yn y maes hwn.
7. Gweithio gyda chydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Addysg/SHELL i ystyried y dystiolaeth a gasglwyd a chytuno ar argymhellion i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
8. Yr argymhellion hyn i gynnwys ystyried sut y gellid cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion y gallai eu presenoldeb gwael a'u diffyg ymgysylltu fod wedi arwain at ddeilliannau arholiad is na'r disgwyl. Dylai'r cymorth ychwanegol hwn geisio cefnogi eu dilyniant fel dysgwyr a'u hatal rhag dod yn NEET.

Ymgynghoriadau sy'n cyfrannu at yr adolygiad a'r fethodoleg

Er mwyn bodloni nodau'r adolygiad, ymgwymerwyd ag amrywiaeth o ddulliau ansoddol a meintiol. Cwblhawyd y gweithgareddau ymchwil canlynol:

- Dadansoddiad o ddata sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a data arall ar bresenoldeb dysgwyr yng Nghymru
- Adolygiad o lenyddiaeth academiaidd a llwyd - gweler atodiad D
- Cyfweiliadau ymgynghori lled-strwythuredig trwy Teams gan ddefnyddio cwestiynau cyfweiliad y cytunwyd arnynt gyda swyddogion Llywodraeth Cymru - gweler isod am restr lawn o rai yr ymgynghorwyd â nhw
- Trafodaethau astudiaeth achos trwy Teams gyda staff o 8 ysgol - gweler isod am restr o ysgolion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriadau yn bennaf ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2021 fel a ganlyn:

Trafodaethau grŵp ffocws gyda:

Dysgwyr (dau gyfarfod wedi'u hwyluso gan Plant yng Nghymru)
Cymdeithion yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
Penaethiaid uwchradd
Cyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol (tri chyfarfod)
Consortia rhanbarthol Prif Weithredwyr
Swyddogion Lles Addysg
Swyddogion cymorth awdurdodau lleol Sipsiwn, Roma a Theithwyr
Swyddogion polisi presenoldeb y gwledydd cartref

